

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Uned Famolaeth, Ysbyty Singleton,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 5 - 7 Medi 2023

Dyddiad cyhoeddi: 15 Rhagfyr 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83577-281-2

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	7
3. Yr hyn a nodwyd gennym	11
• Ansawdd Profiad y Claf	11
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	21
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	33
4. Y camau nesaf	42
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	43
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	44
Atodiad C - Cynllun gwella.....	62

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Singleton, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 5-7 Medi 2023. Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward 20 - ward ôl-enedigol (ar ôl esgor) â lle i 25 o welyau gan gynnwys 7 gwely gofal trosiannol, sy'n cynnwys 23 o welyau ar hyn o bryd
- Ward 19 - ward cynenedigol (cyn esgor) â lle i 16 o welyau
- Uned Asesu Cynenedigol (AAU) â lle i 4 gwely
- Ward esgor (gan gynnwys ystafell brofedigaeth ac ystafelloedd pyllau geni) â 10 gwely
- Uned Geni'r Bae, sef uned a arweinir gan fydwragedd â lle i 3 gwely ac yn cynnwys 2 bwll geni
- Uned Dibyniaeth Isel - 3 gwely
- Uned Dibyniaeth Uchel - 2 wely.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 353 o holiaduron papur ac ar-lein gan fenywod a phobl sydd wedi rhoi genedigaeth neu eu gofalwyr a chwblhawyd 122 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol ac adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#)

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y staff yn gweithio'n galed i roi profiad cadarnhaol i fenywod a phobl sy'n rhoi genedigaeth, a'u teuluoedd, er gwaethaf y pwysau parhaus ar yr adran. Gwelwyd aelodau o'r staff yn rhoi gofal caredig, llawn parch, ac roedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y gofal roeddent yn ei gael gan y staff ar y cyfan. Fodd bynnag, cododd rhai ohonynt bryderon ynghylch argaeledd y staff, achosion o oedi a chymorth digonol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi gwybodaeth iechyd y cyhoedd am feichiogrwydd a dolenni i wybodaeth sy'n gyfredol, ar gael mewn gwahanol ieithoedd ac yn cael ei diweddarau i gynnwys y canllawiau a'r wybodaeth ddiweddaraf
- Sicrhau bod cymorth priodol ar gael ar gyfer bwydo ar y fron
- Sicrhau bod system gadarn ar waith ar gyfer rhoi gwybod am ddiffygion a gwelliannau sydd eu hangen i'r amgylchedd i'r adran Ystadau ac ar gyfer datrys y materion hynny
- Adolygu cynllun ffisegol/ôl troed yr uned, gan gynnwys lleoliad yr ystafell brofedigaeth, a chynllun Uned Geni'r Bae, er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau yn well
- Sicrhau y caiff meddyginiaethau lleddfu poen priodol eu rhoi mewn modd amserol
- Adolygu llif y cleifion a phrofiad cleifion, yn enwedig ar gyfer y menywod hynny a'r bobl hynny sy'n rhoi genedigaeth sy'n cael profiad o'r broses ar gyfer ysgogi'r cyfnod esgor
- Mae angen rhagor o waith i ddiwallu anghenion cyfathrebu'r unigolion hynny nad Cymraeg neu Saesneg yw eu mamiaith
- Ymgysylltu â phobl o gefndiroedd amrywiol a'r rhai hynny â nodweddion gwarchodedig er mwyn cael adborth ganddynt ar wasanaethau mamolaeth, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn briodol ar gyfer eu hanghenion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dywedodd y rhan fwyaf o'r menywod ar bobl a oedd yn rhoi genedigaeth, a'u teuluoedd, wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael gofal da
- Cafwyd adborth cadarnhaol ar y broses ar gyfer triniaethau toriadau cesaraidd dewisol gan y menywod a oedd wedi cael profiad o'r driniaeth honno

- Gwelwyd bod y gwasanaeth profedigaeth yn gefnogol iawn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn cadarnhau bod gwaith cynllunio gofal dyddiol da yn mynd rhagddo a oedd yn hyrwyddo diogelwch cleifion ac yn dangos tystiolaeth o'r gofal a ddarparwyd. Fodd bynnag, gwnaethom godi pryderon sylweddol mewn perthynas â staffio, diogelwch ac atal a rheoli heintiau.

Gwelsom drefniadau gweithio da gan y tîm amlddisgyblaethol ar draws gwasanaethau fel y gwasanaethau newyddenedigol, fferylliaeth, theatrau ac anestheteg.

Nodwyd gennym fod gwelliannau effeithlonrwydd wedi'u gwneud mewn perthynas â recriwtio bydwaig drawsnewid a bydwaig ddigidol a bod newidiadau wedi'u gwneud i rôl y cynorthwydd gofal mamolaeth. Roedd rhai o'r newidiadau hyn wedi cynyddu'r amser a oedd gan y staff i ofalu am gleifion.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

Codwyd y materion canlynol mewn llythyr sicrwydd ar unwaith a gyhoeddwyd yn dilyn yr arolygiad. Ceir rhagor o fanylion am y gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B:

- Felly, ni chafodd AGIC sicrwydd fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar yr holl gyfarpar yn unol â pholisi/gofynion y bwrdd iechyd i sicrhau bod y cyfarpar angenrheidiol ar gael ac yn addas i'w ddefnyddio pe byddai argyfwng yn ymwneud â chlaf.
- Nid oedd y trefniadau cyfathrebu na'r trefniadau trosglwyddo mewn perthynas â gofal cynenedigol a gofal yn ystod genedigaeth yn ddigonol er mwyn gallu cynllunio gofal diogel i bob menyw a baban
- Mae prosesau atal a rheoli heintiau aneffeithiol ar waith mewn rhai rhannau o'r uned
- Nid oedd cyfarpar meddygol a hylifau yn cael eu storio mewn ffordd digon diogel mewn rhai rhannau o'r uned.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynyddu mynychder sganio cynenedigol mewn perthynas â thwf ffetysol yn unol â'r canllawiau cenedlaethol
- Sicrhau bod gweithdrefnau cynhwysfawr ac effeithiol mewn perthynas ag uwchgyfeirio problemau staffio yn cael eu dilyn a'u cyfleu i bob aelod o staff

clinigol. Rhaid i hyn gynnwys canllawiau clir ar y broses i'w dilyn pan fydd aelodau o staff yn nodi lefelau staffio isel

- Adolygu'r gweithgarwch, lefelau staffio, lleoliadau a phrosesau sy'n gysylltiedig â'r Uned Asesu Cynenedigol er mwyn sicrhau gofal diogel ac effeithiol i bob menyw sy'n cysylltu â'r gwasanaeth
- Adolygu a gwella mesurau atal a rheoli a heintiau a chynllun yr ail theatr obstetrig.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Ystyriwyd bod archwiliadau o'r wardiau o dan arweiniad cymheiriaid yn arfer da.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom gyfarfod ag arweinwyr o bob rhan o'r gwasanaeth mamolaeth a oedd yn cydweithio'n dda. Gwelsom drefniadau gweithio amlddisgyblaethol a oedd yn ymddangos yn effeithiol ym mhob rhan o'r uned.

Yn ôl adborth y staff, roedd y tîm wedi wynebu cyfnodau parhaus o bwysau. Dywedodd llawer o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi blino'n lân a'u bod yn pryderu am effaith y niferoedd isel o staff bydwreigiaeth ar ddiogelwch cleifion. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff bydwreigiaeth y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'u llwythi gwaith a'r amgylcheddau gwaith gwael, a'u bod yn pryderu am eu hiechyd a'u llesiant personol. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod y timau staff yn gweithio'n galed i gefnogi ei gilydd o dan yr amgylchiadau. Soniodd sawl aelod o'r staff am gymorth, caredigrwydd a thosturi'r tîm meddygol tuag at fydwragedd yn ystod y misoedd diwethaf.

Nodwyd gennym mai rolau interim yw llawer o'r rolau arweinyddiaeth yn yr adran ac y bu cryn dipyn o heriau wrth sicrhau tîm arwain sefydlog yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Dywedwyd wrthym am y mesurau ychwanegol sydd ar waith i gefnogi'r tîm arwain interim, gan gynnwys trefniadau mentora a hyfforddi gan gymheiriaid.

Rhannodd yr uwch-arweinwyr gynlluniau i wella lefelau staffio ac i ddatblygu rolau i fodloni'r gofynion ar y gwasanaeth yn y dyfodol.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

Codwyd y materion canlynol mewn llythyr sicrwydd ar unwaith a gyhoeddwyd yn dilyn yr arolygiad. Ceir rhagor o fanylion am y gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

- Nid oedd lefelau digonol a diogel o staff bydwreigiaeth na chymysgedd sgiliau ar gael ar gyfer pob shifft er mwyn sicrhau y gellid darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.
- Roedd lefelau cydymffurfiaeth pob aelod o'r staff â hyfforddiant gorfodol yn isel, ac o ganlyniad, ni chafodd AGIC sicrwydd fod pob aelod o'r staff a oedd yn darparu gofal obstetrig wedi cael yr hyfforddiant cyfredol perthnasol nac yn meddu ar y sgiliau cyfredol perthnasol i roi gofal a thriniaethau diogel i bob menyw a baban roeddent yn gofalu amdanynt
- Nid oedd digon o fesurau diogelwch ar waith i sicrhau bod babanod yn cael eu cadw'n ddiogel.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu'r sefyllfa o ran swyddi arwain interim yn yr adran a datblygu cynllun effeithiol i sicrhau tîm arwain sefydlog ac effeithiol
- Ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd yn sgil y sylwadau a'r themâu llai ffafrïol yn yr holiadur staff
- Sicrhau y caiff unrhyw ganllawiau a pholisïau eu diweddarau a'u rhannu mewn modd amserol
- Adolygu'r rolau arbenigol a sicrhau eu bod wedi'u cynnwys yn effeithiol fel rhan o strwythurau timau a strwythurau'r bwrdd iechyd
- Rhoi cynllun cadarn ar waith i sicrhau y caiff cofnodion a gwybodaeth lle mae modd adnabod y cleifion eu storio mewn modd diogel ac y caiff gwastraff cyfrinachol ei waredu'n ddiogel.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Hyfforddiant ar ddigwyddiadau i aelodau newydd o staff mewn perthynas â rhoi gwybod am risgiau a digwyddiadau
- Trefniadau gweithio da gan y tîm aml-ddisgyblaethol
- Gwelliannau effeithlonrwydd drwy gyflwyno rolau newydd ac arloesol.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofalwyr. Cwblhawyd cyfanswm o 353 o holiaduron. Ar y cyfan, nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod wedi cael profiad cadarnhaol, gyda'r rhan fwyaf yn nodi bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda' (214/353), gan rannu sylwadau fel y canlynol:

“Cefais fy nhrin yn eithriadol o dda yn ystod y cyfnod esgor yn y ganolfan a arweinir gan fydwagedd”

“Roedd y bydwagedd a oedd yn gofalu amdana i yn wych, ond doedd dim digon o staff yn yr ysbyty, ac nid oedd y bydwagedd yn cael unrhyw gyfnodau seibiant.”

“Roedd rhai aelodau unigol o'r staff yn ardderchog”

“Roedd y fydwraig a fu'n gofalu amdana i ar ôl geni fy maban, yn ystod y llawdriniaeth ac ar y noson gyntaf yn wych. Dwn i ddim sut y byddwn i wedi ymdopi hebdi.”

“Doeddwn i ddim yn teimlo bod unrhyw un yn gwrando arna i”

“Dwi'n credu bod angen iddyn nhw wneud yn llawer gwell wrth gyflogi mwy o staff, gan fod prinder staff”

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Doedd dim digon o staff ar y ward esgor a doedd dim digon o welyau i bawb. Ni chefais lawer o amser, yn enwedig o ystyried nad oedd fy ngŵr yn bresennol ar gyfer y cyfnod esgor”

“Roedd y staff yn anghwrtais ac yn ddigroeso pan gyrhaeddais, a chefais fy nhrin fel niwsans”

“Cefais fy ngadael ar fy mhen fy hun mewn ystafell aros, yn cyfangu'n llawn ac mewn cryn dipyn o boen, ar ôl cael fy anfon i'r ward asesu o'r ward esgor, er fy mod wedi sôn fod y broses wedi symud yn gyflym”

“Dwi'n credu bod angen iddyn nhw wneud yn llawer gwell wrth gyflogi mwy o staff, gan fod prinder staff”

“Yn fy marn i, wnaeth y staff brysbennu ddim gwranddo arna i, a dyna pam y bu'n rhaid i mi gael triniaeth toriad cesaraidd. Mynegais bryderon wrth y staff brysbennu, a dywedwyd wrthyf fod hynny'n normal. Ond ar ôl symud i'r ward esgor, cefais wybod nad oedd yr hyn yr oeddwn yn ei brofi yn normal. Roedd y bydwragedd ar y ward esgor yn wych, ond methodd y staff brysbennu â nodi sawl problem a gafodd effaith ar fy ngenedigaeth.”

Mae angen i'r bwrdd iechyd ystyried yr adborth gan gleifion mewn perthynas â lefelau staffio a rhoi gwelliannau ar waith.

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd

Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth hybu iechyd wedi'i harddangos ym mhob rhan o'r uned, gan gynnwys gwybodaeth am fwydo ar y fron, cysgu diogel a chyingor cyffredinol ar gadw'n iach cyn, yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd. Roedd y wybodaeth hon yn Saesneg gan fwyaf.

Gwnaethom edrych ar y wybodaeth ar-lein am feichiogrwydd gan fwrdd iechyd Prifysgol Bae Abertawe a nodwyd gennym nad oedd y dolenni i wybodaeth gan lechyd Cyhoeddus Cymru am feichiogrwydd yn gweithio. Yn ogystal, nodwyd gennym y gellid gwella argaeledd gwybodaeth hybu iechyd gynhwysfawr am feichiogrwydd ar-lein ac ar ffurf papur er mwyn sicrhau y gall menywod a phobl sy'n rhoi genedigaeth, a'u teuluoedd, gael gafael ar wybodaeth er mwyn gwneud newidiadau iach i wella'r tebygolrwydd y byddant yn cael beichiogrwydd a baban iach.

Dywedwyd wrth AGIC am yr heriau o ran cynnal a hybu iechyd y cyhoedd i fenywod a theuluoedd, ochr yn ochr â darparu gofal mamolaeth, o ystyried bod y lefelau staffio ar lefel gritigol isel, ac y rhoddir blaenoriaeth felly i ofal clinigol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth a dolenni iechyd y cyhoedd mewn perthynas â beichiogrwydd ar gael, ac y cânt eu diweddarau er mwyn cynnwys y canllawiau a'r wybodaeth ddiweddaraf i fenywod a phobl sy'n rhoi genedigaeth.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth iechyd y cyhoedd mewn perthynas â beichiogrwydd ar gael mewn gwahanol ieithoedd.

Roedd yr ysbyty yn barth dim smygu dynodedig, ac roedd y gwaharddiad hwn yn cynnwys e-sigaréts/anwedd. Gwelsom wybodaeth briodol yn rhoi cymorth rhoi'r gorau i smygu ym mhob rhan o'r uned. Dywedwyd wrthym nad oedd rhaglen gymorth benodol i famau roi'r gorau i smygu / lleihau smygu ar gael i fenywod beichiog, ond gellid atgyfeirio unigolion at raglenni gan y bwrdd iechyd. Dywedodd pob un o'r menywod y gwnaethom siarad â nhw fod staff wedi gofyn iddynt am eu harferion smygu a'u bod wedi cael cynnig cymorth i roi'r gorau iddi yn ystod pob apwyntiad.

Gwnaethom edrych ar fwrdd gwybodaeth menter Baby Friendly (BFI) UNICEF yn yr ardal asesu dydd. Nid oedd pob aelod o'r staff na'r gweithwyr gofal iechyd y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o lefel achredu menter Baby Friendly yr uned.

Rhaid i'r bwrdd iechyd wella ymwybyddiaeth menywod a staff o fenter, gwybodaeth a lefel achredu Baby Friendly UNICEF.

Roedd y rhan fwyaf o'r menywod a'r bobl sy'n rhoi genedigaeth a gwblhaodd ein holiadur o'r farn bod y tîm bydwreigiaeth wedi parchu eu penderfyniad o ran sut i fwydo eu baban (260/330). Fodd bynnag, roedd llai o'r farn bod y bydwagedd wedi cynnig cymorth iddynt wrth iddynt geisio bwydo eu baban, boed hynny drwy botel neu ar y fron (192/330). Cafwyd sylwadau cymysg yn ystod yr arolygiad ac yn yr holiadur mewn perthynas â chymorth i fwydo ar y fron.

Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Roedd cymorth i fwydo ar y fron yn ofnadwy. Roeddwn i'n benderfynol o fwydo ar y fron, ond prin iawn oedd y cymorth a gefais. Gofynnais am help i wneud yn siŵr fod fy mabi wedi cydio'n iawn. Safodd un fydwraig wrth y drws, heb hyd yn oed ddod i mewn i'r ystafell, gan ddweud, ydy mae'n iawn....”

“Prin oedd yr help i fwydo ar y fron”

“Roedd yr help a gefais i ddysgu sut i fwydo ar y fron yn wych! Roedd y staff wrth law bob amser i ateb unrhyw gwestiynau a phryderon”

“Gofynnais am help i fwydo ar y fron ar y noson gyntaf, ond doedd neb yn gallu helpu.”

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y lefel briodol o gymorth, cyngor ac arweiniad bwydo ar y fron ei rhoi i bob menyw ac unigolyn sy'n rhoi genedigaeth sy'n awyddus i fwydo ar y fron yn ystod eu cyfnod yn yr uned famolaeth.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd y rhan fwyaf o'r menywod a'r bobl a oedd wedi rhoi genedigaeth y gwnaethom siarad â nhw, a'u teuluoedd, a'r rhan fwyaf o'r unigolion a ymatebodd i'r holiaduron, o'r farn fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch (246/353).

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r staff (111/121) a atebodd holiadur AGIC, yn eu barn nhw, eu bod yn llwyddo i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion.

Clywodd y tîm arolygu bob aelod o'r staff yn bod yn gwrtais ac yn barod i helpu pob menyw ac unigolyn a oedd yn rhoi genedigaeth a'u teuluoedd. Roedd sgyrsiau ynghylch gofal yn gynnil ac roedd y llenni yn cael eu cau, er y gellid clywed sgyrsiau weithiau o ganlyniad i gynllun y baeau.

Gwelsom fenywod a'u teuluoedd yn cael eu trin mewn ffordd garedig a sensitif drwy gydol yr arolygiad.

Dywedodd rhai o'r menywod y gwnaethom siarad â nhw fod prinder staff ar y wardiau, a bod y bydwragedd a'r staff yn brysur iawn, ond nid oedd y rhan fwyaf o'r farn bod hynny'n cael effaith andwyol ar eu gofal. Adleisiwyd y sgyrsiau hyn yn yr holiadur i gleifion.

“Er ei bod hi'n amlwg yn brysur ym mhob man, roedd y staff yn dal i wenu wrth ruthro o gwmpas. Roedden nhw'n wych a doedd dim byd yn ormod o drafferth iddyn nhw. Cefais y profiad mwyaf anhygoel er fy mod yn bryderus. Rwy'n ddiolchgar iawn am dîm cyfeillgar a oedd yn teimlo fel teulu i mi ar adeg pan oeddwn yn fregus iawn. Roedden nhw'n hyfryd i'm partner a'm mam hefyd”

“Mae'n amlwg bod prinder staff felly gobeithio'n wir y gellir datrys y sefyllfa gan fod y bydwragedd yn anhygoel a bod yn amlwg eu hangen er mwyn i fenywod allu cael profiad cadarnhaol wrth eni plentyn.”

Yn ystod yr arolygiad, roedd tymheredd yr uned famolaeth yn boeth iawn, gan fod y tywydd yn grasboeth. Soniodd llawer o'r cleifion a'r staff am y gwres anghyfforddus, yr amgylchedd a'r ffaith nad oedd systemau awyru yn llawer o'r ardaloedd ar y wardiau. Yn ogystal, nid oedd y tair cawod yn yr ystafelloedd ymolchi cyffredinol ar y ward gynenedigol yn gweithio yn ystod yr arolygiad. Cafodd un gawod ei thrwsio wrth i'r arolygiad fynd rhagddo.

Cafodd AGIC wybod am yr heriau o ran yr amgylchedd gofal a chynllun yr uned a oedd yn cael effaith ar y gallu i ddarparu gofal urddasol a pharchus. Roedd hyn yn cynnwys heriau awyru, a'r oedi wrth drwsio'r cawodydd ar y ward gynenedigol.

“Mae angen rhyw fath o reolaeth dros y tymheredd, gan fod y ward yn annioddefol o boeth a bod llawer o fenywod yn aros i gael triniaeth i ysgogi'r cyfnod esgor, gyda rhai yn aros wythnos.”

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi proses gadarn ac effeithiol ar waith i sicrhau y caiff diffygion eu datrys ac y caiff gwelliannau eu gwneud gan yr adran ystadau mewn modd amserol ac i safon ddigonol.

Roedd ystafell brofedigaeth ar gael ar yr uned i'w defnyddio ar gyfer marwolaeth yn ystod genedigaeth neu farw-enedigaeth. Roedd yr ystafell brofedigaeth wedi'i lleoli wrth y fynedfa i'r ward esgor ac roedd yn rhaid i gleifion ddod drwy'r ward esgor i'w chyrraedd. Byddai'n well lleoli'r gwasanaeth hwn ar wahân i ystafelloedd cleifion eraill er mwyn cynnig gwell preifatrwydd ac urddas i gleifion ar adeg anodd iawn.

Gwnaethom gyfarfod â'r fydwraig brofedigaeth arbenigol gan nodi ei bod yn rhoi cymorth i deuluoedd a oedd wedi cael profiad o brofedigaeth ac i staff.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried lleoliad presennol yr ystafell brofedigaeth gan anelu at symud y gwasanaeth i ardal ar wahân i fynedfa'r ward esgor / sicrhau nad oes yn rhaid i gleifion ddod drwy'r ward esgor i'w chyrraedd.

Gwnaethom edrych ar Uned Geni'r Bae, sef yr uned a arweinir gan fydwragedd. Gwelsom dair ystafell eni, ac roedd pwll geni mewn dwy ystafell. Mae'r ystafelloedd yn fach a gallent gyfyngu ar y cyfleoedd i fenywod symud o gwmpas ac i bartneriaid roi cymorth iddynt. Un uned ddadebru sydd ar gael i Uned Geni'r Bae (nad yw'n rhan o'r brif ward esgor).

Dylai'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o Uned Geni'r Bae er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'r gofod sydd ar gael er mwyn i fenywod allu symud o gwmpas yn ystod y cyfnod esgor.

Cawsom lawer o sylwadau negyddol gan fenywod a oedd yn aros i'w triniaeth i ysgogi'r cyfnod esgor ddechrau. Dywedwyd wrthym fod yr achosion hyn o oedi o ganlyniad i lefelau staffio isel. Nodwyd gennym fod achosion o oedi wrth ysgogi'r cyfnod esgor yn cael eu dogfennu ar gofrestr risg y bwrdd iechyd a fod y mater wedi'i ychwanegu ym mis Ebrill 2021. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Cafodd triniaethau i ysgogi cyfnod esgor ar gyfer cleifion mewnol ar ward 19 eu hatal sawl gwaith dros gyfnod o 5 diwrnod o ganlyniad i lefelau staffio ar y ward esgor. Roedd yn gyfnod anodd i'r cleifion, ond dangosodd y rhan fwyaf o'r staff ddiffyg empathi a thosturi”

“Mae'r broses ar gyfer ysgogi'r cyfnod esgor yn broses llawn straen, yn enwedig pan fydd yn araf a phan fydd menywod yn yr ysbyty am ddiwrnodau heb fod unrhyw beth yn digwydd. Does dim modd iddynt gysgu/gorffwys yn iawn gan fod sŵn drwy'r amser a bod y peiriannau yn bipian ac ati.

“Dyw'r broses ddim yn eich paratoi ar gyfer profiad geni cadarnhaol gan eich bod wedi blino'n lân ac yn anghyfforddus. Rwy'n deall ei bod hi'n dibynnu ar lefelau prysurdeb ond does bosibl bod ffordd o gefnogi'r mamau sy'n gorfod aros.”

“Nid oedd staff ar gael i ysgogi'r cyfnod esgor ar fwy nag un achlysur er gwaethaf y ffaith fod mwy na 12 diwrnod ers fy nyddiad geni disgwylidig.”

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd y rhan fwyaf o'r menywod a'r bobl a oedd yn rhoi genedigaeth y gwnaethom siarad â nhw yn yr Uned Famolaeth wrthym fod eu dewisiadau o ran eu gofal wedi cael eu parchu. Roedd y rhai hynny a ddewisodd driniaeth toriad cesaraidd dewisol yn fodlon ar y dewisiadau. Roedd y bwrdd iechyd wedi gwella'r llwybr gofal ar gyfer y grŵp hwn. Caiff triniaethau toriad cesaraidd eu cynnal yn y brif theatr.

Wrth edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom nad oedd trafodaethau am feddyginiaethau lleddfu poen yn ystod y cyfnod esgor a thrafodaethau am ddewisiadau bwydo yn cael eu dogfennu'n effeithiol.

Nodwyd gennym nad oedd y cynlluniau geni a awgrymir yn cael eu cwblhau fel mater o drefn yn y cofnodion o'r apwyntiadau cychwynnol. Dylai'r rhain gyfeirio at ddewisiadau ar sail gwybodaeth a wnaed gan y cleifion mewn perthynas â'r cyfnod esgor a geni.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cynlluniau geni / dewisiadau ar gyfer y cyfnod esgor a geni eu cofnodi fel mater o drefn yn nodiadau'r cleifion.

Cadarnhaodd uwch-fydwragedd, oherwydd prinder staff, fod uned a arweinir gan fydwragedd Canolfan Geni Castell-nedd Port Talbot wedi bod ar gau ers peth amser. Rhoddwyd y gorau hefyd i gynnig y dewis i fenywod gael genedigaeth gartref yn ystod y cyfnod lle cafwyd prinder staff. Dywedwyd wrthym fod y penderfyniad i roi'r gorau i gynnig y dewis hwn i gael genedigaeth gartref a'r

penderfyniad i gau Canolfan Geni Castell-nedd Port Talbot wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu o hyd ar draws holl wasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd yn parhau'n ddiogel. Gwnaethom edrych ar dystiolaeth a dogfennaeth a oedd yn cadarnhau bod y bwrdd iechyd wedi bod yn goruchwyllo'r gwasanaethau hyn a'u bod wedi'u cynnwys ar gofrestr risg y bwrdd iechyd.

Amserol

Gofal amserol

Dywedodd rhai menywod wrthym eu bod wedi gorfod aros am feddyginiaethau lleddfu poen a gofal mamolaeth cyffredinol. Dywedwyd wrthym fod menywod yn aml yn wynebu achosion o oedi oherwydd capasiti / staffio. Cyfeiriodd llawer o fenywod at achosion o oedi yn yr holiadur i gleifion.

“Roeddwn mewn poen ofnadwy ac yn methu â cherdded, ond bu'n rhaid i fy ngŵr aros yn y coridor. Gwrthodwyd mynediad iddo i'r ward tan ryw amser penodol, ond doedd dim staff ar gael i'm helpu. Roeddwn wedi gwaedu dros y gwely a bu'n rhaid i mi eistedd ac aros am oesoedd i aelod o staff ddod i helpu.”

“Roedd hi'n amlwg bod prinder staff ar y ward. Byddai'n rhaid i mi aros amser hir cyn i rywun ymateb ar ôl i mi ganu'r gloch”

“Cefais gymorth da gan fy mydwraig yn ystod y cyfnod cynenedigol ac fe wnes i fwynhau fy mhrofiad yn geni yn yr uned a arweinir gan fydwragedd. Fodd bynnag, bu'n rhaid i mi aros dros 8 awr i fynd i'r theatr i gael pwythau ar ôl dioddef rhwyg gradd 3 i'r perinëwm”

“Ni chefais feddyginiaethau lleddfu poen pan ofynnais amdanynt a bu'n rhaid i mi aros amser hir.”

Nododd rhai o'r menywod y gwnaethom siarad â nhw ar y ward ôl-enedigol nad oeddent bob amser yn cael meddyginiaethau lleddfu poen mewn modd amserol pan oedd eu hangen arnynt. Roeddent o'r farn mai prinder staff a llwythi gwaith oedd yn gyfrifol am hyn.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff meddyginiaethau lleddfu poen priodol eu rhoi mewn modd amserol.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu llif cleifion a phrofiad cleifion a'u gwella, yn enwedig i'r rhai hynny y mae angen ysgogi'r cyfnod esgor ar eu cyfer. Rhaid i'r

bwrdd iechyd liniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â phrinder capasiti er mwyn sicrhau y caiff gofal cleifion diogel ac effeithiol ei gynnal.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu darparu enghreifftiau o ddiwallu anghenion ychwanegol menywod a nododd pob un ohonynt y byddent yn atgyfeirio ac yn uwchgyfeirio gofynion ychwanegol yn briodol.

Roedd ymateb menywod a phobl sy'n rhoi genedigaeth, a'u teuluoedd, mewn perthynas â chyfathrebu yn gymysg. Dywedodd rhai ohonynt fod y staff yn gwrando arnynt (223/353), a dywedodd rhai ohonynt am enghreifftiau o gyfathrebu gwael ac o deimlo nad oedd y staff yn gwrando arnynt.

"Roedd y staff wedi esbonio popeth i fi a'm gŵr, gan lwyddo hyd yn oed i dawelu fy ngŵr a oedd wedi cynhyrfu. Alla i ddim cwyno o gwbl amdanynt. Roedd cyfle am sgwrs wedyn hyd yn oed er mwyn trafod popeth"

"Roedd fy mydwraig geni yn eithriadol, wna i byth ei hanghofio. Roedd mor garedig a gofalgar, ac fe wnaeth hi wir wrando arna i. Sylweddolodd cymaint roeddwn wedi cynhyrfu ac aeth y tu hwnt i bob disgwyliad!"

"Nid dyma oedd fy nhro cyntaf yn geni baban, ac roeddwn i'n teimlo nad oedd neb yn gwrando"

"Ni wrandawyd arna i drwy gydol fy meichiogrwydd ac ystyriwyd bod unrhyw bryder iechyd a oedd gen i yn gysylltiedig â'r feichiogrwydd."

Mae angen i'r bwrdd iechyd ystyried y sylwadau llai ffafriol gan gleifion mewn perthynas â chyfathrebu, gan wrando ar y sylwadau hynny ac ystyried sut y gellir gwella'r gwasanaeth.

Cawsom adborth gan naw menyw sy'n siarad Cymraeg. Nododd pump ohonynt na chawsant gynnig cyfle rhagweithiol i siarad Cymraeg drwy gydol eu taith, a dywedodd tair ohonynt nad oeddent yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg yn yr ysbyty. Gwnaethom edrych ar y wybodaeth a oedd ar gael i fenywod ar yr uned ac ar ffurf ddigidol. Roedd y wybodaeth a oedd ar gael yn Gymraeg ar y ward ar ffurf posteri neu ddeunydd wedi'i argraffu yn gyfyngedig, ond nodwyd gennym fod yr holl wybodaeth ar-lein am wasanaethau mamolaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gwnaethom gyfarfod ag aelodau o'r staff a oedd yn siarad Cymraeg a dywedwyd wrthym fod modd i'r cleifion wybod pa aelodau o staff a oedd yn siarad Cymraeg gan fod logo "Iaith Gwaith" ar eu gwisg neu ar eu bathodyn enw.

Rhaid i'r bwrdd iechyd wella'r cynnig rhagweithiol ar gyfer gofal Cymraeg i ddefnyddwyr gwasanaethau mamolaeth.

Nid oedd arwyddion clir i'r uned famolaeth o'r prif faes parcio, ym mhrif fynedfa'r ysbyty nac yn adeiladau eraill yr ysbyty. Gallai hyn ei gwneud hi'n anodd i bobl ddod o hyd i'r lle priodol i gael gofal ac achosi oedi wrth gael gofal. Roedd unrhyw arwyddion a oedd yn bodoli yn dangos rhifau wardiau yn hytrach nag enwau'r wardiau neu'r arbenigeddau. Roedd hyn yn siomedig o ystyried bod arolygiad mamolaeth AGIC ar gyfer Singleton yn 2019 wedi nodi'r un broblem o ran arwyddion, a'i bod yn ymddangos nad yw'r bwrdd iechyd wedi gweithredu.

Rhaid i'r bwrdd iechyd wella arwyddion i'r uned famolaeth yn yr ysbyty (gan gynnwys o'r maes parcio a'r brif fynedfa) er mwyn sicrhau ei bod hi'n hawdd i bob claf ac ymwelydd sy'n dod i'r ysbyty ddod o hyd i'r uned famolaeth.

Gwnaethom edrych ar naw set o gofnodion cleifion. Nid oedd unrhyw un yn nodi dewis iaith y claf. Gallai hyn ei gwneud hi'n anodd i'r rhai hynny nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf gyfathrebu'n effeithiol. Mae hyn yn peri risg i ofal diogel o ganlyniad i gamgyfathrebu posibl.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff anghenion cyfathrebu cleifion o gefndiroedd ieithyddol di-Gymraeg / Saesneg eu diwallu. Rhaid nodi dewis iaith yng nghofnodion y cleifion. Dylai pob aelod o'r staff fod yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfieithu a bod gwasanaethau cymorth cyfathrebu a gwasanaethau cyfieithu ar gael.

Hawliau a Chydraddoldeb

Gwnaethom edrych ar wybodaeth y bwrdd iechyd ar-lein a gwelsom fod gan y bwrdd iechyd wybodaeth benodol a datganiad am werthoedd a oedd yn cyfeirio at ofal teg yn ogystal â recriwtio teg.

Dywedodd y rhan fwyaf o fenywod a phobl sy'n rhoi genedigaeth (264/300) nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaeth iechyd hwn neu ei ddefnyddio yn sgil unrhyw nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010). Ni wnaeth y cleifion hynny a ddywedodd eu bod wedi profi gwahaniaethu rannu unrhyw enghreifftiau penodol o wahaniaethu a oedd yn gysylltiedig â nodweddion gwarchoddedig.

Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o bwysigrwydd cydraddoldeb mynediad a darparwyd enghreifftiau lle roedd addasiadau rhesymol ar waith, neu'n cael eu gwneud, fel bod pawb, gan gynnwys unigolion â nodweddion gwarchoddedig, yn gallu defnyddio'r gwasanaeth.

Cadarnhaodd arweinwyr bydwreigiaeth fod hyfforddiant amrywiaeth a chydraddoldeb yn orfodol i bob aelod o staff, er na chawsom unrhyw ddata yn ystod yr arolygiad i gadarnhau'r lefelau cydymffurfiaeth ar gyfer yr hyfforddiant hwn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ei ddarparu ac y caiff lefelau presenoldeb eu monitro.

Yn ogystal, gwnaethom edrych ar Adroddiad Blynyddol 2023 y Bartneriaeth Lleisiau Mamolaeth a nodwyd gennym mai prin yw'r gwaith ymgysylltu sy'n mynd rhagddo â menywod a theuluoedd o grwpiau lleiafrifol a chefnidiroedd amrywiol er mwyn cael adborth ar eu profiadau o ofal mamolaeth.

Dywedodd rhai aelodau o staff wrthym eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau cyfieithu. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd dolen sain ar gael ac mai gwybodaeth gyfyngedig a oedd i'w gweld neu a oedd ar gael ar-lein i'r rhai hynny o gefndiroedd amrywiol yr oedd angen gofal mamolaeth arnynt.

Rhaid i'r bwrdd iechyd wella'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r rhai hynny o gefndiroedd amrywiol a'r rhai hynny â nodweddion gwarchoddedig er mwyn cael adborth ganddynt ar wasanaethau mamolaeth, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn briodol ar gyfer eu hanghenion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd rhai prosesau sefydledig ar waith i reoli ac adolygu risgiau a chynnal iechyd a diogelwch yn yr ysbyty. Gwnaethom gynnal adolygiad o gofrestr risg y bwrdd iechyd dyddiedig Awst 2023. Roedd pedair risg a oedd yn gysylltiedig â gofal mamolaeth a ychwanegwyd ddwy flynedd yn ôl. Fodd bynnag, roeddent wedi'u nodi fel risgiau coch neu oren, ac roedd dyddiadau targed wedi'u nodi ar eu cyfer yn y gorffennol.

Dylid cynnal adolygiadau rheolaidd o'r risgiau mamolaeth, a dylid diweddarau ac uwchgyfeirio camau gweithredu yn unol â hynny er mwyn sicrhau y cânt eu hystyried a'u cwblhau mewn modd amserol.

Cadarnhaodd yr adolygiad o gofrestr risg y bwrdd iechyd hefyd y sgysiau a gafwyd â'r staff a nododd nad oedd digon o gapasiti uwchsain yn y bwrdd iechyd i gynnig apwyntiad sgrinio ar gyfer sgan uwchsain cyfresol i bob menyw yn ystod y trydydd tymor yn unol â Rhaglen Asesu Twf (GAP) Sefydliad Amenedigol y DU. Mae risg i ddiogelwch menywod, pobl sy'n rhoi genedigaeth a babanod os na ddilynrir y canllawiau cenedlaethol ar gyfer sganio twf ffetysol.

Ychwanegwyd y risg hon at y gofrestr ym mis Awst 2019. Caiff camau lliniaru eu nodi ar yr asesiad risg, gan gynnwys gwell cydymffurfiaeth â hyfforddiant GAP Grow. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol GAP Grow yn gyson isel adeg ein harolygiad ym mis Medi 2023.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion cynlluniau i liniaru'r risgiau o beidio â dilyn y canllawiau cenedlaethol mewn perthynas â sganio cynenedigol ar gyfer twf ffetysol, yn ogystal â chynlluniau i gynyddu'r capasiti ar gyfer sganio.

Ymdriniwyd â'r mater mewn perthynas â chydymffurfiaeth wael â hyfforddiant gorfodol (gan gynnwys hyfforddiant GAP Grow) o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn Atodiad B o'r adroddiad hwn.

Gwnaethom edrych ar ddogfen proses uwchgyfeirio, nad oedd dyddiad arni. Cawsom wybod fod ddogfen hon wedi cael ei dilysu drwy fforwm Ansawdd a Diogelwch y bwrdd iechyd. Nid oedd rhai o'r aelodau allweddol o staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn gallu diffinio'r broses uwchgyfeirio na chadarnhau'r lefelau staffio diogel gofynnol ar gyfer yr uned.

Dywedwyd wrthym pe byddai'r adnodd aciwtedd a oedd yn cael ei ddefnyddio yn nodi lefelau staffio isel, yna y byddent yn cwblhau adroddiad digwyddiad.

- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gweithdrefnau cynhwysfawr ac effeithiol mewn perthynas ag uwchgyfeirio problemau staffio yn cael eu dilyn a'u cyfleu i bob aelod o staff clinigol. Rhaid i hyn gynnwys canllawiau clir ar y broses i'w dilyn pan fydd aelodau o staff yn nodi lefelau staffio isel.

Gwnaethom adolygu'r uned asesu cynenedigol (AAU) a dywedwyd wrthym am nifer o heriau o ran darparu gofal diogel ac effeithiol yn y maes hwn.

Rhoddodd y staff enghreifftiau o'r heriau a'r effeithiau posibl ar ddarparu gofal diogel. Roedd hyn yn cynnwys enghraifft (y rhoddwyd gwybod amdani drwy Datix) lle roedd bydwraig yn gweithio ar ei phen ei hun ar yr AAU, ac yn gyfrifol am dri chlaf, yr oedd y tri ohonynt yn destun proses fonitro CTG ar y pryd. Bu'n rhaid i'r fydwraig o'r AAU drosglwyddo claf i'r ward esgor, ond, pan wnaeth hynny, nid oedd unrhyw staff ar gael ar y ward esgor i gymryd cyfrifoldeb dros y claf. Arhosodd y fydwraig o'r AAU gyda'r claf ar y ward esgor am 1 awr a 30 munud. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cofnodwyd bradycardia 5 munud o hyd ar un o'r peiriannau CTG a oedd yn dal i fod yn weithredol ar yr AAU. Sylwodd aelod o staff a oedd yn digwydd mynd heibio ar y canlyniad hwnnw. Yn ddiweddarach, nodwyd mai pwls y fam oedd yn gyfrifol am y bradycardia. Er na wnaed unrhyw niwed uniongyrchol, roedd y fydwraig o'r AAU yn poeni y gallai niwed fod wedi digwydd. Roedd pob aelod o'r staff staff y gwnaethom siarad â nhw ar yr AAU yn poeni'n arw am effaith lefelau staffio isel ar ddiogelwch cleifion.

Mae'r heriau penodol sy'n gysylltiedig â'r uned asesu cynenedigol fel a ganlyn:

- Nid yw'r lefelau staffio ar gyfer yr AAU wedi'u cynnwys yn adnodd aciwtedd yr uned, sy'n golygu y gallai'r uned fod yn wynebu brigiau mewn galw a chymhlethdod achosion heb i'r heriau hyn gael eu huwchgyfeirio'n effeithiol. Gwelsom ddogfennaeth, a gwnaethom siarad ag aelodau o'r staff, a wnaeth gadarnhau heriau parhaus o ran lefelau isel o staff bydwreigiaeth cymwysedig ar yr uned hon a bod y gwasanaeth hwn yn wynebu achosion o oedi wrth asesu menywod, i'r graddau weithiau bod y bydwragedd yn teimlo'n anniogel. Mae canllawiau NICE (2015) yn nodi y dylai menywod sy'n dod i unedau asesu cynenedigol gael eu hasesiad cychwynnol o fewn 30 munud o gyrraedd. Cyflwynodd y bwrdd iechyd safon a oedd yn nodi y dylai pob menyw sy'n dod i uned asesu cynenedigol gael ei brysbennu o fewn 30 munud o gyrraedd. Cyflwynwyd y safon hon yn dilyn adolygiad o ddigwyddiadau difrifol a gynhaliwyd sawl blwyddyn yn ôl. Dywedodd y staff

wrthym fod lefelau staffio ar yr AAU yn golygu bod y targed hwn yn aml yn cael ei fethu

- Yn aml, bydd menywod yn dechrau eu gofal yn ystod genedigaeth yn yr uned asesu cynenedigol, ond nid oedd yn amlwg bod pob menyw ac unigolyn sy'n rhoi genedigaeth a oedd yn cyrraedd yr uned yn cael eu goruchwyllo'n ddigonol
- Roedd yr uned asesu cynenedigol ar lawr gwahanol i'r ward esgor a disgrifiwyd yr heriau wrth symud menywod rhwng yr ardaloedd, gan barhau i ddarparu gofal diogel i fenywod ar yr AAU o hyd
- Nodwyd gennym mai un llinell ffôn uniongyrchol sydd ar gael ar gyfer yr AAU. Os yw'r llinell hon yn brysur, ni allai'r staff gadarnhau y byddai pobl eraill yn gallu cysylltu. Nid oedd unrhyw system gwyro galwadau na system ciwio ar waith. Mae risg na fyddai rhywun y mae angen gofal, cyngor brys, triniaeth neu ymyriad yn gallu cael gafael ar asesiad brysbennu.
- Disgrifiwyd y broses ar gyfer asesu dros y ffôn a gwelsom ddogfennau cysylltiedig. Nodwyd gennym fel arfer mai aelod o'r tîm anghlinigol sy'n derbyn yr alwad gychwynnol a'i fod yn cwblhau taflen "Cyngor dros y Ffôn". Os bydd y fydwraig yn brysur â chlaf, yna bydd y fydwraig yn dychwelyd yr alwad er mwyn cwblhau'r asesiad brysbennu dros y ffôn, fel arfer ar ffurf electronig. Fel arfer, caiff y daflen cyngor dros y ffôn ei thaflu. Ni chaiff y taflenni eu sganio na'u lanlwytho i'r system TG. O ganlyniad i'r camau niferus, y gwahanol ddulliau cofnodi, gwaredu gwybodaeth a'r diffyg prosesau "cydgysylltiedig" ar gyfer y gwasanaeth asesu dros y ffôn hwn, mae AGIC yn pryderu bod risg y gellid methu galwad a /neu y gellid bod oedi wrth asesu unigolyn o ganlyniad.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gweithgarwch, lefelau staffio, lleoliadau a phrosesau sy'n gysylltiedig â'r Uned Asesu Cynenedigol er mwyn sicrhau gofal diogel ac effeithiol i bob menyw sy'n cysylltu â'r gwasanaeth.

- Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r prosesau sy'n gysylltiedig â staffio'r uned asesu cynenedigol a sicrhau bod digon o staff ar gael a'u bod yn meddu ar gymysgedd sgiliau digonol. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff lefelau staff yr AAU eu cynnwys yn adnodd aciwtedd yr uned er mwyn lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â staffio ar yr uned hon
- Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob menyw yn yr AAU/ ward esgor yn cael ei goruchwyllo gan gydgysylltydd y ward esgor er mwyn sicrhau y caiff swyddogaeth/gweithgarwch drws ffrynt ei fonitro ar y cyd â gweithgarwch y ward esgor ac y gellir sicrhau llwybr gofal diogel ac effeithiol i bob claf ni waeth pa ran o'r uned y bydd yn dod iddi gyntaf

- Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o'r system ffôn i fenywod sy'n ffonio'r AAU i gael cyngor, gan anelu at ei gwella, er mwyn sicrhau bod system effeithiol ar waith i fenywod siarad ag aelod o staff os bydd y llinell yn brysur
- Rhaid i'r bwrdd iechyd gwblhau adolygiad cynhwysfawr o'r broses asesu dros y ffôn a'r trefniadau ar gyfer cofnodi a rhannu gwybodaeth er mwyn symleiddio'r broses a gwella cyfathrebu diogel ac effeithiol
- Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal archwiliad llawn o alwadau o gymharu â'r menywod a gafodd eu gweld dros gyfnod penodol, gan gynnwys achosion o oedi wrth gyrraedd y targed 30 munud, a sicrhau y caiff gwelliannau eu rhoi ar waith
- Rhaid i'r bwrdd iechyd ddiffinio a gweithredu proses ffurfiol ar gyfer cleifion na fyddant yn mynychu ar ôl cael cyngor gan yr AAU / staff brysbennu bod angen eu gweld. Mae angen gweithredu'r broses hon er mwyn sicrhau diogelwch menywod a babanod. At hynny, mae angen casglu data am gleifion na fyddant yn mynychu ac archwilio'r data hynny.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom fynychu cyfarfodydd trosglwyddo meddygol ar 5 a 6 Medi 2023. Nodwyd gennym fod y trafodaethau trosglwyddo meddygol ar gyfer gofal yn ystod genedigaeth a gofal cynenedigol yn cael eu cynnal ar wahân a bod meddygon ymgynghorol gwahanol yn gyfrifol am ofal yn ystod genedigaeth a gofal cynenedigol. Roedd elfen yn ystod genedigaeth y cyfarfod trosglwyddo yn amlddisgyblaethol ac yn addysgol; fodd bynnag, ni lwyddodd i gyflwyno digon o wybodaeth am lif posibl cleifion i'r ward esgor. Ni lwyddodd ychwaith i sôn yn ddigonol am yr holl gleifion a oedd yn destun proses ysgogi'r cyfnod esgor, yn yr uned asesu cynenedigol neu ar y ward cynenedigol. Nid oedd unrhyw dystiolaeth fod y broses hon yn cael ei chynnal yn rheolaidd, er i ni gael gwybod bod y meddyg ymgynghorol sy'n gyfrifol am gleifion cynenedigol a'r meddyg ymgynghorol sy'n gyfrifol am y ward esgor yn cynnal trafodaethau anffurfiol. Ni chawsom sicrwydd fod y trafodaethau trosglwyddo meddygol rhwng gofal cleifion cynenedigol a gofal yn ystod genedigaeth yn ddigon effeithiol na'u bod yn cael eu cofnodi a'u cyfleu'n rheolaidd, gan sicrhau bod pob menyw ym mhob rhan o'r uned yn cael ei blaenoriaethu'n effeithiol ac mewn modd amserol er mwyn sicrhau'r llif cleifion gorau posibl a lleihau'r risg y byddai cyflwr unrhyw glaf yn dirywio.

Ymdriniwyd â'r mater mewn perthynas â throsglwyddo meddygol o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn [Atodiad B](#) o'r adroddiad hwn.

Dywedwyd wrthym fod rota ar gyfer y rheolwyr ar alwad a'r aelod o'r tîm gweithredol ar alwad.

Roedd dwy theatr ar y ward esgor ar gyfer achosion obstetrig. Cawsom wybod fod genedigaethau drwy doriad cesaraidd dewisol yn cael eu cynnal yn y brif theatr a oedd ar wahân i'r wardiau cynenedigol a'r wardiau esgor. Nid archwiliodd y tîm y brif theatr fel rhan o'r arolygiad.

Roedd y theatr obstetrig gyntaf yn lân, roedd digon o le ynndi ac roedd yn addas at y diben. O edrych ar yr ail theatr obstetrig, nodwyd gennym fod rhai materion o ran atal a rheoli heintiau. Mae'r ystafell yn fach ac mae'n anodd darparu gofal ar sail theatr obstetrig. Yn ein barn ni, nid oedd y theatr hon yn addas at y diben.

Gwnaethom edrych ar y rhestrau gwirio, y systemau a'r prosesau effeithiol a oedd ar waith mewn perthynas â darparu gofal obstetrig diogel ac effeithiol yn y theatr. Gwelsom drefniadau gweithio amlddisgyblaethol effeithiol. Gwelsom fod menywod a'u partneriaid yn cael eu cefnogi'n effeithiol yn y theatr a bod y staff yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw.

Roedd un tîm theatr obstetrig yn bresennol. Pan fydd lefelau aciwtedd yn uchel, dywedwyd wrthym y gellid galw am ail dîm oddi ar y safle. Mae hyn yn peri risg bosibl o oedi wrth ddarparu gofal obstetrig brys os bydd angen ail theatr er mwyn geni baban ar frys.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried addasrwydd yr ail theatr obstetrig a gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau, bod cynllun y theatr yn galluogi gofal obstetrig brys effeithiol a bod y menywod y mae angen iddynt gael gofal obstetrig mewn theatr yn cael gofal mewn theatr sy'n ddiogel ac yn addas at y diben.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau risg effeithiol wedi'u cynnal a bod camau lliniaru effeithiol wedi'u rhoi ar waith mewn perthynas â'r prosesau sy'n gysylltiedig ag unrhyw dîm sydd ei angen ar gyfer yr ail theatr obstetrig er mwyn sicrhau gofal theatr obstetrig brys diogel, effeithiol ac amserol.

Mae'r gwasanaethau mamolaeth a babanod newyddenedigol wedi'u lleoli yn ysbyty Singleton sydd mewn lleoliad daearyddol ar wahân i safle'r gwasanaethau gofal critigol, gwasanaethau gofal dwys a'r adran achosion brys yn Ysbyty Treforys. Mae risg o niwed i gleifion obstetrig y mae angen gofal critigol arnynt gan fod angen ambiwlans i'w trosglwyddo i ysbyty arall. Nid oes unrhyw ddarpariaeth obstetrig benodedig yn ysbyty Treforys, felly gallai fod oedi wrth gael adolygiad obstetrig i gleifion a gaiff eu trosglwyddo i gael gwasanaethau gofal critigol gan fod angen iddynt deithio i safle arall. Bydd cleifion a gaiff eu trosglwyddo i gael

gwasanaethau gofal critigol yn cael eu gwahanu o'u babanod gan nad oes unrhyw ddarpariaeth newyddenedigol ar safle ysbyty Treforys. Gwnaethom edrych ar y cofnodion ar y gofrestr risg a oedd yn gysylltiedig â'r mater hwn a chawsom wybod nad oes unrhyw ddewis amgen diogel ar hyn o bryd.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r prosesau a'r darpariaethau ar gyfer menywod a phobl sy'n rhoi genedigaeth a'u babanod os bydd angen trosglwyddo claf obstetrig i'r ITU.

Pan wnaethom gyrraedd yr uned famolaeth, nid oedd un o'r lifftiau yn gweithio. Mae'r ystafelloedd geni wedi'u lleoli ar Lefel 5 yr uned ac mae'r fynedfa ar Lefel 1. Mae risg y bydd oedi wrth ddarparu gofal i fenywod yn ystod y cyfnod esgor neu na fyddant yn gallu cyrraedd yr ystafelloedd geni mewn modd amserol gan nad yw'r lifft yn gweithio'n rheolaidd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y risgiau sy'n gysylltiedig â'r ffaith nad yw'r lifftiau yn gweithio yn yr uned famolaeth eu lliniaru er mwyn lleihau'r risg o oedi wrth ddarparu gofal ac amddiffyn urddas cleifion.

Cyfarfu'r tîm arolygu ag aelodau allweddol o'r staff sy'n gyfrifol am reoli risg. Dywedodd yr arweinwyr wrthym y bu newid diwylliant cadarnhaol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf o ran rhoi gwybod am ddigwyddiadau a dysgu ohonynt. Cafodd hyn ei gadarnhau gan yr holiadur staff. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff fod eu sefydliad yn trin staff sy'n gysylltiedig â chamgymeriad, camgymeriad a fu bron â digwydd neu ddigwyddiad yn deg (82/119). Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn cael eu hannog i roi gwybod am ddigwyddiadau (117/120). Dywedodd llai o staff (77/120) wrthym eu bod yn cael adborth am newidiadau a wnaed mewn ymateb i gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau y rhoddir gwybod amdanynt.

Gwnaethom edrych ar y wybodaeth hyfforddi / sefydlu a roddir i'r staff gan y tîm sy'n gyfrifol am roi gwybod am risgiau a digwyddiadau. Roedd yn nodi gwybodaeth glir am ba dîm aml-ddisgyblaethol a oedd yn gyfrifol, trefniadau adrodd Datix, adolygiadau o ddigwyddiadau, digwyddiadau y mae angen rhoi gwybod amdanynt ar lefel genedlaethol, cymorth i staff, canllawiau uwchgyfeirio a ble i ddod o hyd i ddysgu ar y cyd. **Nodwyd y wybodaeth sefydlu hon fel arfer da.**

Roedd tua 300 o hysbysiadau am ddigwyddiadau ar agor ar adeg yr arolygiad. Er bod y nifer hwn yn sylweddol uwch na'r nifer y byddai uwch-arweinwyr yn ei hoffi, rhannwyd tystiolaeth o gyfarfodydd rheolaidd, systemau a phrosesau a oedd ar waith i fonitro themâu a thueddiadau ac i sicrhau y caiff y wybodaeth hon ei chofnodi a'i rhannu er mwyn gwella arferion. Gwnaethom edrych ar enghraifft lle cafodd y gwersi a ddysgwyd a chanllawiau eu dosbarthu ar unwaith yn dilyn digwyddiad na ddylai fyth ddigwydd y rhoddir gwybod amdano.

Nodwyd fod y tîm aml-ddisgyblaethol yn cydweithio'n effeithiol i adolygu digwyddiadau o bwys a digwyddiadau y rhoddir gwybod amdanynt, ond nodwyd gennym hefyd fod y gwaith hwn yn heriol yn ystod cyfnodau lle roedd prinder staff.

Mae ôl-groniad sylweddol wrth reoli digwyddiadau a'u datrys. Roedd hyn yn golygu ei bod hi'n debygol nad oedd y gwersi i'w dysgu yn cael eu rhoi ar waith mewn modd amserol ac effeithiol er mwyn lleihau'r risg y byddai'r digwyddiad yn digwydd eto.

Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r staff mai anaml y maent yn cael unrhyw adborth ffurfiol yn dilyn digwyddiadau, a bod hynny'n gyfle a gollwyd i ddysgu a gwella.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r broses ar gyfer rhoi gwybod am bryderon a digwyddiadau clinigol, ymchwilio iddynt a'u rheoli gan anelu at gyflymu'r broses a rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd neu newidiadau i arferion a argymhellwyd mewn modd amserol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y rhan fwyaf o ardaloedd yr uned yn lân. Fodd bynnag, pan wnaethom gyrraedd ardal dibyniaeth isel yr uned, gwelsom ôl gwaed ar droli, gwastraff gwaedlyd wedi'i waredu mewn bin gwaredu gwydr a llenni cleifion tafladwy yr oedd angen eu newid. Y dyddiad wedi'i nodi ar yr un ohonynt oedd mis Rhagfyr 2022 a'r dyddiad ar un arall oedd mis Tachwedd 2022. Nid oedd yr aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu cadarnhau pryd y dylid newid y llenni tafladwy yn yr uned na'r broses ar gyfer gwneud hynny.

Ni chafodd AGIC sicrwydd fod prosesau effeithiol ar waith nac yn cael eu dilyn i atal heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd.

Ymdriniwyd â'r materion glendid hyn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir atynt yn Atodiad B o'r adroddiad hwn.

Gwnaethom edrych ar dystiolaeth a oedd yn ymwneud ag archwiliadau glanhau ar gyfer yr adran. Yn benodol, gwnaethom edrych ar sawl archwiliad a gwblhawyd gan dimau aml-ddisgyblaethol o dan y "Fframwaith Sicrhau Ansawdd - pecyn cymorth y Ward Ddelfrydol". **Ystyriwyd bod y broses o gynnal yr archwiliadau hyn o dan arweiniad cymheiriaid yn arfer da.** Nodwyd bod rhai argymhellion wedi'u gwneud

yn yr archwiliadau o dan Becyn Cymorth y Ward Ddelfrydol mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau na wnaeth y tîm arolygu eu gweld ar waith yn ymarferol, gan gynnwys y ffaith nad oedd rhestrau gwirio ar gyfer glanhau ystafelloedd ar gael ym mhob ystafell ac nad oedd tagiau “I am clean” yn cael eu defnyddio fel mater o drefn ar gyfer cyfarpar. Roedd y canfyddiadau hyn yn cyfateb i ganfyddiadau AGIC.

Nododd yr arolygwyr fod ôl traul mewn rhannau o'r uned a bod angen eu diweddarau'n gyffredinol.

Er ein bod wedi nodi bod archwiliadau hylendid dwylo yn cael eu cynnal fel rhan o'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd - pecyn cymorth y Ward Ddelfrydol, gwelsom nad oedd y staff clinigol yn cydymffurfio â'r safon noeth o dan y penelin ac felly nad oeddent yn cydymffurfio â pholisi atal a rheoli heintiau'r bwrdd iechyd. Gwelsom enghreifftiau o staff yn gwisgo oriawr neu fodrwyon â gemau yn yr ardaloedd clinigol. Gwnaethom hefyd uwchgyfeirio rhai pryderon am wisg y staff yn ystod yr arolygiad. Nodwyd gennym fod aelodau o staff yn gwisgo legins, esgidiau amhriodol a chadwyni. Tynnwyd sylw'r arweinwyr at y materion hyn drwy gydol yr arolygiad.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â gofynion y bwrdd iechyd o ran atal a rheoli heintiau mewn perthynas â'r safon noeth o dan y penelin a gwisg.

Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal archwiliad atal a rheoli heintiau llawn a sicrhau bod y broses ar gyfer archwiliadau atal a rheoli heintiau yn strwythuredig ac yn effeithiol a'i bod yn cael ei holrhain a'i monitro er mwyn ysgogi gwelliannau.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar y cyfleusterau ar gyfer storio brychau. Roeddent yn cael eu storio mewn oergell yn ystafell y tîm. Rydym yn argymhell y dylid symud y cyfleuster storio hwn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried ble y caiff brychau eu storio a'u symud i ardal briodol o'r uned.

Diogelu plant ac oedolion

Cadarnhaodd y bwrdd iechyd fod polisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo lles plant ac oedolion a all fod yn wynebu risg. Roedd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn. Roeddent hefyd yn gallu dweud wrth yr arolygwyr sut y byddent yn mynd ati i uwchgyfeirio pryder diogelu yn effeithiol.

Nodwyd gennym ar adeg yr arolygiad na ellid cadarnhau'r cyfraddau ar gyfer hyfforddiant diogelu gorfodol.

Ymdriniwyd â'r mater mewn perthynas â hyfforddiant gorfodol o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn Atodiad B o'r adroddiad hwn.

Gwnaethom edrych ar ddogfen a oedd yn cynnwys adborth o ymarfer herwydio babanod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022 a oedd yn nodi camau gweithredu manwl a'r gwersi a ddysgwyd o'r ymarfer.

Ystyriodd y tîm arolygu ddiogelwch babanod newydd-anedig yn yr uned famolaeth a nododd fod risgiau yn bresennol. Rydym wedi codi'r risgiau hyn ar wahân i'r adroddiad hwn â'r bwrdd iechyd ac mae'r bwrdd iechyd wedi cytuno ar gamau gweithredu i ymdrin â'r risgiau a'u datrys.

Roedd hyn, ynghyd â'r prinder staff bydwreigiaeth ym mhob rhan o'r uned, yn golygu na chafodd AGIC sicrwydd fod yr uned yn ddigon diogel i leihau'r risg y byddai baban yn cael ei herwydio.

Ymdriniwyd â'r mater hwn mewn perthynas â diogelwch babanod o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn Atodiad B o'r adroddiad hwn.

Nodwyd gennym fod rhai aelodau o staff arbenigol yn gweithio yn yr uned er mwyn helpu rhai menywod a theuluoedd yr oedd ganddynt ofynion ychwanegol. Er enghraifft, roedd bydwraig diogelu a bydwraig iechyd meddwl yn gweithio yn yr uned.

Dywedodd y bydwragedd wrthym eu bod yn defnyddio canllawiau safonol ar gyfer asesu iechyd meddwl mamau a gwelsom dystiolaeth o hyn yng nghofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt.

Rheoli gwaed

Gwelsom fod systemau priodol ar waith i sicrhau y caiff gwaed ei reoli a'i drallwysu'n ddiogel 24/7.

Roedd hyn yn cynnwys defnyddio cofnod trallwysïadau Cymru gyfan, trefniadau priodol ar gyfer storio a thrin cynhyrchion gwaed, a hyfforddiant priodol i'r staff mewn perthynas â gweinyddu a monitro cleifion.

Dywedwyd wrthym fod profion gwaed yn cael eu cynnal mewn lleoliad canolog yn ysbyty Treforys ac y gall y broses o anfon samplau gwaed cleifion i ysbyty arall i gael eu profi achosi oedi wrth wneud penderfyniadau clinigol a darparu gofal i gleifion obstetrig.

Rhaid i'r bwrdd iechyd archwilio'r achosion o oedi wrth gael canlyniadau gwaed i gleifion obstetrig a lliniaru'r risgiau o niwed posibl i gleifion o ganlyniad i unrhyw achosion o oedi.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwnaethom edrych ar y gwiriadau ar gyfer dyfeisiau a chyfarpar meddygol er mwyn sicrhau bod pob darn o gyfarpar, gan gynnwys dadebrwyr a diffibrilwyr yn gweithio'n effeithiol ac yn ddiogel i'w ddefnyddio mewn argyfwng meddygol. Gwelsom nad oedd y gwiriadau hyn yn cael eu cofnodi bob dydd. Roedd gwiriadau o'r cyfarpar brys yn cael eu cynnal mewn modd anghyson ar draws yr uned ac roedd y cofnodlyfrau ar gyfer y gwiriadau yn cael eu storio ar wahân i'r cyfarpar. Ar y ward ôl-enedigol, er bod y troli dadebru brys yn drefnus ac yn cael ei wirio, nid oedd cofnodlyfr ar gyfer gwiriadau un diffibriliwr. Fodd bynnag, ymdriniwyd â hyn yn ystod yr arolygiad. Cafodd cofnodlyfr ei greu a dechreuwyd ei ddefnyddio yn ystod yr arolygiad.

Ymdriniwyd â'r mater hwn mewn perthynas â gwirio cyfarpar o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn Atodiad B o'r adroddiad hwn.

Soniodd y staff wrthym am y broses ar gyfer gwasanaethu ac atgyweirio cyfarpar a welsom, ond ni welsom unrhyw ddogfennaeth ffurfiol o'r broses na chofrestr asedau yn ystod yr arolygiad i sicrhau bod prosesau ar waith i wneud yn siŵr bod cyfarpar yn cael ei wasanaethu a'i galibradu'n effeithiol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodlyfr cofrestr asedau priodol ar waith a bod prosesau ffurfiol yn cael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethu ac atgyweirio.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod dau gwpwrdd storio â mynediad bysellbad ar gyfer storio hylifau a chyfarpar meddygol wedi'u gadael ar agor gan ddefnyddio'r glicied a bod y codau mynediad wedi'u hysgrifennu ar sticeri ar y drysau. Roedd y cypyrddau wedi'u lleoli ar brif goridor yr uned ac roedd modd i unrhyw ymwelydd, claf neu aelod o staff heb awdurdod gael mynediad iddynt. Ni chafodd AGIC sicrwydd fod hylifau a chyfarpar meddygol yn cael eu storio'n briodol ar yr uned famolaeth i leihau'r risg o fynediad heb awdurdod. Mae hyn yn peri risg bosibl i ddiogelwch a llesiant y cleifion ac unigolion eraill a all gael gafael ar feddyginiaethau nad ydynt ar eu cyfer, ymyrryd â meddyginiaethau o'r fath a / neu eu llyncu. Cafodd y mater hwn ei uwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad, cafodd y cypyrddau eu cloi a chafwyd gwared ar y codau.

Ymdriniwyd â'r mater hwn mewn perthynas â storio o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn Atodiad B o'r adroddiad hwn.

Wrth wirio darnau o gyfarpar cyffredinol, nodwyd gennym fod y dyddiad ar rai o'r nodwyddau ar un o'r troliau ar y ward ôl-enedigol wedi mynd heibio. Rhoddwyd gwybod am y nodwyddau hyn a chawsant eu tynnu oddi ar y troli ar adeg yr arolygiad.

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd bod system gadarn ar waith i sicrhau y caiff cyfarpar y mae'r dyddiad wedi mynd heibio arno ei symud yn ddiogel o'r ardal glinigol.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a rhoi cyffuriau a reolir yn ddiogel.

Gwelsom fod siartiau cyffuriau yn cael eu cwblhau'n gywir ar y cyfan gan y staff bydweigiaeth a'r staff meddygol a oedd yn gyfrifol am roi'r feddyginiaeth.

Gwnaethom edrych ar y prosesau ar gyfer cyffuriau a reolir a nodwyd gennym eu bod yn effeithiol.

Effeithiol

Maeth a hydradu

Gwelsom bryd bwyd amser cinio yn cael ei weini ac roedd y bwyd i'w weld yn flasu ac yn cael ei weini'n brydlon. Dywedodd y menywod a'r bobl a oedd yn rhoi genedigaeth wrthym eu bod yn cael dewis. Roedd y broses o drefnu a chydlynu'r amseroedd bwyd yn effeithlon. Roedd cyfleusterau ar gael i staff y wardiau wneud bwyd a diodydd i gleifion y tu allan i oriau craidd, ac mae gwasanaeth troli ar gael ar gyfer prydu poeth lle gall cleifion archebu bwyd ymlaen llaw. Gwelsom ddewis o fwydlenni, a oedd yn cynnwys bwydydd poeth ac oer. Nodwyd gennym fod brechdanau a dŵr ar gael yn hwylus.

Cofnodion y cleifion

Gwnaethom adolygu naw set o gofnodion cleifion fel rhan o'r arolygiad. Roedd canlyniadau ein hadolygiad yn gymysg. Gwelsom fod asesiadau risg a chynlluniau gofal yn cael eu cwblhau fel mater o drefn yn ystod yr apwyntiad cychwynnol. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r cofnodion yn cynnwys atebolrwydd clir a thystiolaeth yn dangos sut y cafodd penderfyniadau eu gwneud.

Nid oedd y wybodaeth ym mhob cofnod bob amser wedi'i llofnodi gan ddangos llofnod darllenadwy neu enwau wedi'u hysgrifennu mewn priflythrennau er mwyn gallu trafod y wybodaeth honno gydag aelod unigol o staff pe byddai angen. Byddai stampio'r wybodaeth yn arfer da.

Gwelsom nad oedd gwybodaeth olrhain cardiocograffi (CTG) ar gael yn y cofnodion, ond cawsom wybod ei bod ar gael ar ffurf electronig.

Roedd un set o nodiadau a welsom yn anghyflawn ac roedd yn amhosibl darllen rhywfaint o'r wybodaeth yn y nodiadau. Roedd y cofnodion hyn yn dangos y bu oedi cyn i'r claf gael ei weld gan glinigydd er gwaethaf y ffaith bod ei chyfangiadau yn cryfhau.

Wrth edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom nad oedd trafodaethau â'r menywod am feddyginiaethau lleddfu poen yn cael eu dogfennu fel mater o drefn. Roedd cofnodion cleifion yn nodi pe byddai unigolyn yn gwneud cais am feddyginiaethau lleddfu poen ond nid oeddent yn cyfeirio at yr opsiynau a drafodwyd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff archwiliadau dogfennaeth rheolaidd eu cynnal ac y caiff gwersi eu dysgu o'r canfyddiadau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn cael barn y staff ar y gwasanaethau mamolaeth sy'n cael eu darparu yn Ysbyty Singleton a'u profiad o weithio yno.

Cafwyd cyfanswm o 122 o ymatebion gan aelodau o'r staff. Nid atebodd rhai ymatebwyr bob cwestiwn.

Atebion negyddol a gafwyd gan y staff yn gyffredinol, gyda'u hanner yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn eu rhoi i'r cleifion (61/121), llai na hanner yn cytuno y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarparwyd gan eu hysbyty ar eu cyfer nhw eu hunain neu eu ffrindiau a'u teulu (46/121), a llai na hynny yn argymhell eu sefydliad fel man gwaith (37/121).

Datblygiad proffesiynol

Roedd llawer o'r staff o'r farn eu bod wedi cael hyfforddiant priodol er mwyn ymgymryd â'u rôl (73/121). Cawsom nifer o sylwadau am hyfforddiant:

“Oherwydd aciwtedd lefelau staffio, nid wyf wedi cael cyfle i ymgymryd â diwrnodau astudio gorfodol, oherwydd gofynnwyd i mi weithio ar yr uned yn lle hynny. O ganlyniad, nid wyf wedi bod yn cydymffurfio â rhai o'r gofynion hyfforddi ers 2 flynedd bellach. Rwyf wedi hysbysu'r rheolwyr ond ni chymerwyd unrhyw gamau hyd yma.”

“Rwy'n dysgu drwy brofiad yn bennaf, yn hytrach na chael hyfforddiant penodol.”

Gofal cleifion

Dyweddod llai na hanner fod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar i gyflawni eu gwaith (51/121). Nid oedd bron unrhyw un yn teimlo bod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn (3/122). Roedd y rhan fwyaf o'r farn bod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal (111/121).

Gweler isod rhai o'r sylwadau a gafwyd am ofal y cleifion:

“Mae prinder staff eithriadol yn yr uned ar hyn o bryd.”

“Mae'r staff yma yn edrych ar ôl ei gilydd ac yn cefnogi ei gilydd. Ar y cyfan, mae'n lle gwych i weithio. Ond oherwydd yr argyfwng staffio, gall fod yn ofidus ac yn llethol.”

“Mae morâl ar y lefel isaf y gallaf ei chofio.”

“Mae angen mwy o staff er mwyn bodloni gofynion y gwasanaeth. Mae poblogaeth yr ardal wedi cynyddu'n sylweddol ond nid yw maint yr ysbytai na niferoedd y staff wedi cynyddu i ymdopi â'r galw.”

“Mae argyfwng staffio yma - mae'r lefelau cadw staff yn wael. Mae'r staff wedi blino'n lân ac mae gofal cleifion yn y fantol gan ei fod yn cael ei ruthro a'i adael heb ei orffen gan fod y staff yn gorfod symud yn gyflym o un man i'r llall. Anaml y mae'r staff yn cael egwyl pan fyddant ar shifftiau ac nid yw'r uwch-reolwyr yn cynnig eu rhyddhau.”

Cydraddoldeb

Dyweddodd chwe ymatebydd wrthym y gwahaniaethwyd yn eu herbyn yn seiliedig ar nifer o ffactorau a dywedodd 13 o ymatebwyr wrthym nad oes gan bob aelod o'r staff fynediad teg a chyfartal i gyfleoedd yn y gweithle.

Roedd yr adborth gan staff a gafwyd drwy'r holiadur staff a thrwy'r adborth a gafwyd yn ystod yr arolygiad yn dangos tîm o staff a oedd wedi wynebu cyfnodau o bwysau parhaus. Dywedodd llawer o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi blino'n lân a'u bod yn pryderu am effaith y niferoedd isel o staff bydwreigiaeth ar ddiogelwch cleifion ac ar eu hiechyd a'u llesiant meddwl personol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff bydwreigiaeth y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'u llwythi gwaith a'r amgylcheddau gwaith gwael.

Gwelsom lefelau morâl isel iawn yn y tîm bydwreigiaeth. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod y timau staff yn gweithio'n galed i gefnogi ei gilydd o dan amgylchiadau anodd iawn. Soniodd sawl aelod o'r staff am gymorth, caredigrwydd a thosturi'r tîm meddygol tuag at fydwragedd yn ystod y misoedd diwethaf.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Gwelsom mai penodiadau interim oedd sawl un o swyddi allweddol y strwythur arweinyddiaeth, a hynny weithiau am gyfnod o lai na 12 mis. O ganlyniad, nid oedd modd pennu nodau tymor hwy, datblygu gweledigaeth glir na rhoi'r newidiadau angenrheidiol ar waith i ddatblygu'r gwasanaeth.

Roedd yn galonogol nodi bod cynlluniau a threfniadau mentora ar waith i gefnogi a datblygu arweinwyr newydd. Dywedodd y rhan fwyaf o'r arweinwyr bydwreigiaeth wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r sefyllfa o ran swyddi arwain interim yn yr adran a datblygu cynllun effeithiol i sicrhau tîm arwain sefydlog ac effeithiol.

Oherwydd y newidiadau sylweddol a fu yn y strwythur rheoli yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd yn anodd pennu llinellau adrodd ac atebolrwydd clir. Strwythurau interim oedd y strwythurau arwain craidd a gellid llunio strwythur sefydliadol.

Fodd bynnag, gwnaethom gyfarfod ag arweinwyr ymroddedig a chefnogol sy'n ceisio sefydlogi a gwella'r gwasanaeth ar ôl y newidiadau niferus a fu yn y strwythur arwain.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddiweddarau siart sefydliadol sy'n nodi unigolion a rolau allweddol a'i rhannu.

Dywedodd y staff wrthym nad yw'r uwch-arweinwyr bob amser yn weladwy ac nid oedd y rhan fwyaf o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus bod materion a oedd yn cael eu huwchgyfeirio yn cael eu cymryd o ddifrif.

Cafodd hyn ei gadarnhau gan yr ymatebion i'r holiadur staff a nododd fod y rhan fwyaf o'r staff (89/122) yn teimlo nad oedd yr uwch-reolwyr yn weladwy ac nad yw'r prosesau cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol (97/120).

Roedd llawer o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn wedi'u dadrithio, yn teimlo nad oeddent yn cael eu gwerthfawrogi ddigon ac nad oedd unrhyw gysylltiad rhyngddynt â'r tîm arwain cyffredinol yn y bwrdd iechyd. Nododd rhai ohonynt eu bod wedi'u siomi.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried yr holl themâu a sylwadau sy'n deillio o'n harolwg staff, ac ymateb iddynt.

Dywedodd rhai o'r meddygon wrthym fod diwylliant y tîm meddygol yn dda. Dywedodd llawer ohonynt wrthym fod meddygon dan hyfforddiant yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a bod sawl un yn dychwelyd i'r uned ar ôl cwblhau eu hyfforddiant.

Ar adeg yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth yn nodi 158 o ganllawiau obstetrig i'r adran a oedd wedi'u lanlwytho i system y bwrdd iechyd (WISDOM). O'u plith, nodwyd bod y dyddiad ar gyfer 52 ohonynt wedi mynd heibio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ddatblygu cynllun cadarn i sicrhau y caiff yr holl ganllawiau a pholisiâu eu diweddarau a'u rhannu mewn modd amserol .

Gwnaethom edrych ar dystiolaeth o'r cyfarfodydd rheolaidd sy'n cael eu cynnal. Ceir cofnodion o'r cyfarfodydd hyn sy'n cynnwys camau gweithredu â dyddiadau ac maent yn trafod themâu sy'n deillio o ymarfer. Roedd y rhain yn cynnwys cofnodion

fforwm y ward esgor a chofnodion Ansawdd a Diogelwch. Dywedwyd wrthym fod y wybodaeth hon yn cael ei rhannu â thimau ehangach.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom aelodau o'r staff yn cydweithio'n dda fel tîm. Gwelsom enghreifftiau o drefniadau gweithio amlddisgyblaethol effeithiol ac o aelodau o staff ar bob lefel yn cydweithio er mwyn ceisio dod o hyd i atebion arloesol o dan amgylchiadau a oedd weithiau'n anodd iawn. Roedd llawer o'r bydwagedd a'r meddygon y gwnaethom siarad â nhw yn canmol eu cydweithwyr tîm ac yn yr holiadur staff, roedd y rhan fwyaf o aelodau o'r staff (93/121) yn cytuno y gellid dibynnu ar eu rheolwr llinell uniongyrchol i helpu gyda thasg anodd.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ofyn am fanylion hyfforddiant staff gorfodol. O'r wybodaeth a roddwyd, gwnaethom nodi lefelau cydymffurfiaeth gwael â hyfforddiant gorfodol o fewn pob arbenigedd (meddygon a bydwagedd). Cawsom drosolwg o'r cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol ar gyfer mis Medi 2023 a oedd yn dangos canrannau cydymffurfiaeth cyffredinol manwl â hyfforddiant gorfodol fesul adran. Nid oedd gwybodaeth am gydymffurfiaeth â chysiau unigol ar gael yn hwylus ar gyfer pob adran a chyflwynwyd cyfraddau cydymffurfiaeth canrannol cyffredinol. Roedd y cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol islaw 70% ar gyfer y rhan fwyaf o'r cysiau hyfforddiant. Cawsom dystiolaeth bellach a oedd yn cadarnhau lefelau cydymffurfiaeth isel â hyfforddiant GAP Grow gorfodol yn y tîm bydwreigiaeth. Roedd y wybodaeth yn dangos mai 67% o'r bydwagedd a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant GAP Grow yn ystod y 12 mis diwethaf. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth gan y tîm meddygol.

Felly ni chafodd AGIC sicrwydd fod pob aelod o'r staff a oedd yn darparu gofal Obstetrig wedi cael yr hyfforddiant cyfredol perthnasol nac yn meddu ar y sgiliau cyfredol perthnasol i roi gofal a thriniaethau diogel i bob menyw a baban roeddent yn gofalu amdanynt.

“Oherwydd aciwtedd lefelau staffio, nid wyf wedi cael cyfle i ymgymryd â diwrnodau astudio gorfodol, oherwydd gofynnwyd i mi weithio ar yr uned yn lle hynny. O ganlyniad, nid wyf yn cydymffurfio â rhai o'r gofynion hyfforddi”

Ymdriniwyd â'r mater hwn mewn perthynas â chydymffurfio â hyfforddiant gorfodol o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn Atodiad B o'r adroddiad hwn.

Yn ystod yr arolygiad, nododd ein tîm nad yw'r bydwragedd ar yr uned yn cael hyfforddiant ar ganwlâu fel mater o drefn. Mae bydwragedd dan hyfforddiant bellach yn cael hyfforddiant ar ganwlâu er mwyn cymhwyso, ond ni fydd unrhyw fydwragedd newydd gymhwyso yn gallu atgyfnerthu'r hyfforddiant hwnnw gan nad oes unrhyw staff bydweigiaeth ar gael i arsylwi arnynt. Felly, mae risg y byddant yn colli'r sgiliau hynny.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r sgiliau a'r cymwyseddau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant bydweigiaeth a sicrhau bod opsiynau ar gael i atgyfnerthu'r hyfforddiant.

Mae Uned Famolaeth Singleton wedi bod yn profi lefelau isel o staff bydweigiaeth am gyfnod parhaus. Wrth adolygu'r ystadegau ar draws y bwrdd iechyd cyfan, nodwyd nad oedd yr uned famolaeth wedi cyrraedd lefelau staffio Birthrate Plus ers 2019. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff yn ystod yr arolygiad fod lefelau staffio isel yr uned famolaeth wedi cyrraedd y lefel uchaf bosibl ar gofrestr risg y bwrdd iechyd.

Yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym fod nifer y bydwragedd a oedd ar gael i gefnogi'r uned a'r menywod a'r bobl sy'n rhoi genedigaeth yn gyson is na'r nifer sy'n ofynnol o dan Birthrate Plus. Ar noson gyntaf yr arolygiad, roedd 11 o fydwragedd ar y shifft (gan gynnwys arweinydd y ward esgor). Cadarnhawyd mai lefelau Birthrate Plus ar gyfer staff bydweigiaeth oedd 13 neu 14 pe cynhwyswyd arweinydd y ward esgor.

Dywedodd staff o wahanol broffesiynau gofal iechyd wrthym fod y lefelau staffio ar gyfer bydwragedd yn aml yn llawer is na'r lefelau disgwyliedig a'r lefelau diogel.

Gwnaethom edrych ar sawl ffynhonnell dystiolaeth a oedd yn ymwneud â lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â lefelau staffio isel (yn enwedig o ran bydwragedd). Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd uwchgyfeirio dyddiol er mwyn rhoi syniad i'r uwch-dîm bydweigiaeth a chyfarwyddwr gwasanaeth y grŵp o'r sefyllfa ar yr uned. Gwelsom hefyd fod banc bydweigiaeth wrthi'n cael ei ddatblygu, bod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio, bod bydwragedd band 8 yn cael eu galw i mewn i weithio ar sail glinigol a bod bydwragedd yn cael eu trefnu ymlaen llaw er mwyn llenwi bylchau. Gwnaethom edrych ar wybodaeth, adroddiadau a thystiolaeth a oedd yn ymwneud â'r Prosesau Newid Sefydliadol a oedd yn mynd rhagddynt.

Oherwydd lefelau staffio cyson isel, ni chawsom sicrwydd y byddai'r staff yn gallu nodi risg a oedd yn dod i'r amlwg mewn perthynas â chlaf nac ymateb mewn modd amserol i'r risg honno.

Ymdriniwyd â'r mater mewn perthynas â lefelau staffio annigonol (niferoedd a chymysgedd sgiliau) o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn [Atodiad B](#) o'r adroddiad hwn.

Nododd yr ymatebion i'r holiadur staff fod y rhan fwyaf o'r staff yn pryderu am y risgiau sy'n gysylltiedig â rhedeg gwasanaeth mamolaeth â lefelau staffio cyson is na'r cyflenwad gofynnol. Nid oedd bron unrhyw un (3/122) yn teimlo bod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff (94/121) nad oeddent yn gallu bodloni'r holl ofynion croes a oedd ar eu hamser yn y gwaith.

Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol

“Mae prinder staff eithriadol yn yr uned ar hyn o bryd.”

“Mae argyfwng staffio yma - mae'r lefelau cadw staff yn wael. Mae'r staff wedi blino'n lân ac mae gofal cleifion yn y fantol gan ei fod yn cael ei ruthro a'i adael heb ei orffen gan fod y staff yn gorfod symud yn gyflym o un man i'r llall. Anaml y mae'r staff yn cael egwyl pan fyddant ar shifftiau ac nid yw'r uwch-reolwyr yn cynnig eu rhyddhau.”

“Mae'r staff yma yn edrych ar ôl ei gilydd ac yn cefnogi ei gilydd. Ar y cyfan, mae'n lle gwych i weithio. Ond oherwydd yr argyfwng staffio, gall fod yn ofidus ac yn llethol.”

Dywedodd llawer o'r staff wrthym fod y risgiau sy'n gysylltiedig â lefelau staffio isel wedi bod yn bresennol ers cyfnod parhaus ac yn ein holiadur, roedd y rhan fwyaf ohonynt (92/121) yn anghytuno bod yr ysbyty yn cymryd camau cyflym i wella lle bo angen.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried yr adborth o'r holiadur staff ac ystyried sut y gellir gwneud gwelliannau er mwyn cefnogi staff yn well.

Dylai'r bwrdd iechyd barhau i ganolbwyntio ar recriwtio a chadw staff er mwyn llenwi'r swyddi gwag ar bob lefel, gan leihau'r risg i gleifion a gwella profiadau a chanlyniadau cleifion.

Gwnaethom edrych ar rotas y staff a chadarnhawyd yn ystod y cyfnod o 14 diwrnod cyn yr arolygiad, fod lefelau staffio bydweigiaeth ar lefel a oedd islaw'r cyflenwad gofynnol ar 11 diwrnod. (gofyniad o 13 neu 14 os caiff y cydgysylltydd Band 7 ei gynnwys).

Yn ogystal, ar 7 Medi 2023, dywedwyd wrthym mai dim ond naw bydwaig a oedd wedi'u cadarnhau ar gyfer y shifft nos.

Ni chafodd AGIC sicrwydd fod lefelau digonol o staff bydwreigiaeth na lefelau digonol o ran y cymysgedd sgiliau ar gael fel mater o drefn ar gyfer shifftiau er mwyn sicrhau y gellid darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Ymdriniwyd â'r mater hwn mewn perthynas â lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn Atodiad B o'r adroddiad hwn.

Yn ystod yr arolygiad, cawsom wybod fod 21 o aelodau newydd o staff bydwreigiaeth wedi cael eu recriwtio a bod disgwyl iddynt ddechrau yn eu swyddi erbyn mis Rhagfyr 2023. Gwelsom dystiolaeth fod cynlluniau hyfforddi a sefydlu effeithiol ar waith.

Gwnaethom adolygu'r digwyddiadau hyfforddi a dysgu roedd y tîm Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwagedd wedi'u cynnal a gwelsom rhywfaint o dystiolaeth fod themâu o ddigwyddiadau yn ogystal â themâu dysgu ehangach yn cael eu trafod.

Gwelodd y tîm arolygu fod amrywiaeth eang o rolau bydwagedd arbenigol yn yr uned (gan gynnwys diogelu, llywodraethu clinigol, iechyd y cyhoedd, iechyd meddwl). Mae rhai o'r rolau hyn yn gymharol newydd ac nid ydynt wedi ymsefydlu'n llwyr. Roedd y rolau hyn yn aml yn cael eu cyflawni gan unigolion nad oedd unrhyw un wir yn cyflenwi ar eu cyfer pan oeddent yn absennol. Nid oedd pob aelod o'r staff yn ymwybodol o rolau'r bydwagedd arbenigol hyn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r rolau arbenigol a sicrhau eu bod wedi'u cynnwys yn effeithiol fel rhan o strwythurau timau a strwythurau'r bwrdd iechyd.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Ar bob ward yn yr adran, gwelsom godau QR ar bosteri yn cynnwys manylion sut i roi adborth am ofal. Gwelsom fod gwybodaeth Gweithio i Wella ar gael yn ddwyieithog, felly hefyd daflenni ar sut i gwyno.

Gwelsom fwrdd arddangos diddorol yn cynnwys sylwadau adborth wedi'u hysgrifennu gan fenywod ar wal y coridor cynenedigol. Roedd yr holl adborth yn gadarnhaol. Nodwyd gennym hefyd fod adborth wedi'i arddangos yn Uned Geni'r Bae. Gwnaethom edrych ar fwrdd "dywedoch chi, gwnaethom ni" a oedd yn nodi manylion am y newidiadau a wnaed o ganlyniad i adborth gan gleifion.

Gwnaethom edrych ar adroddiadau a gwybodaeth gan grŵp Lleisiau Mamolaeth y bwrdd iechyd. Roeddent yn cynnwys manylion rheolaidd am gyfraddau boddhad menywod a phobl sy'n rhoi genedigaeth.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r staff (91/122) fod adborth yn cael ei gasglu gan gleifion y gwasanaethau mamolaeth. Dywedodd mwy na'u hanner (68/122) nad oeddent yn cael gwybodaeth reolaidd wedi'i diweddarau am brofiad cleifion.

Gwnaethom edrych ar gofnodlyfrau a llinellau amser cwynion er mwyn gweld cynnydd wrth ymdrin â chwynion a dderbyniwyd gan y bwrdd iechyd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y staff wybod yn rheolaidd am adborth gan gleifion.

Dywedodd y staff wrth y tîm arolygu eu bod yn cyfathrebu'n barhaus â chleifion a'u teuluoedd drwy gydol y broses o ymchwilio i unrhyw bryder, a bod teuluoedd yn cael y cyfle i siarad ag uwch-aelodau o'r staff i drafod pryderon.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff wrthym (101/121) eu bod yn gwybod sut i roi gwybod am bryderon, er bod llai ohonynt (76/121) yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am arferion clinigol anniogel.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith ac yn cael eu cyfleu i'r staff er mwyn iddynt deimlo'n ddiogel yn codi pryderon am arferion clinigol anniogel.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR) yn yr uned.

Er ein bod wedi gweld rhywfaint o dystiolaeth bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel, gwelsom weithiau nad oedd hynny'n wir. Pan wnaethom gyrraedd yr Uned Famolaeth, gwelsom fod nodiadau cleifion ar silff ffenestr a bod troli nodiadau yn yr ystafell tîm â'r drws wedi'i ddal ar agor. Gwelsom hefyd fod data cyfrinachol yr oedd modd adnabod y cleifion ohonynt wedi'u rhoi mewn bin top agored arferol y tu allan i'r ardal dibyniaeth isel. Awgrymodd yr arolygwyr y dylai'r staff siarad â'u cydweithwyr llywodraethu gwybodaeth er mwyn cael biniau gwastraff cyfrinachol priodol. Ni chawsom sicrwydd fod y staff yn cydymffurfio â

threfniadau cyfrinachedd cleifion a bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio a'i gwaredu'n unol â gofynion GDPR.

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi cynllun cadarn ar waith i sicrhau y caiff cofnodion a gwybodaeth lle mae modd adnabod y cleifion eu storio mewn modd diogel ac y caiff gwastraff cyfrinachol ei waredu'n ddiogel.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Dyweddodd tîm staff meddygol yr adran wrthym fod ymchwil feddygol yn un o flaenoriaethau'r uned. Roedd enghreifftiau o brosiectau ymchwil obstetrig yn cynnwys prosiectau a oedd yn ymwneud â chyn-eclampsia, cholestasis, ffibronectin ffetysol a'r Big Baby Trial.

Dywedwyd wrthym am gynigion ar gyfer newidiadau sefydliadol a oedd yn mynd rhagddynt ym mhob rhan o'r adran er mwyn ceisio sefydlogi lefelau staffio diogel yn yr uned. Cawsom lawer o sylwadau negyddol am feysydd o'r cynigion hyn ar gyfer newidiadau gan aelodau o'r staff.

Nodwyd gennym fod cylch gwaith swydd cynorthwywyr gofal mamolaeth yn Singleton wedi cael ei ehangu i helpu'r bydwragedd i gyflawni tasgau nad ydynt yn dasgau bydweigiaeth er mwyn rhoi mwy o amser i'r bydwragedd ofalu am gleifion. Dywedwyd wrthym fod hyn yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu'r cynorthwywyr gofal mamolaeth hyn. Nodwyd gennym hefyd fod Bydwraig Trawsnewid Mamolaeth a Bydwraig Ddigidol wedi cael eu penodi'n ddiweddar er mwyn ceisio gwella ansawdd a gwneud arbedion effeithlonrwydd.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Caiff pryderon y tynnwyd sylw atynt yn ystod yr arolygiad eu nodi yn Atodiad B a C			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Uned Famolaeth, Ysbyty Singleton, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 5 - 7 Medi 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Canfyddiadau				
Lefelau staffio bydwreigiaeth				
<p>Gwnaethom edrych ar rotas y staff a chadarnhawyd yn ystod y cyfnod o 14 diwrnod cyn yr arolygiad, fod lefelau staffio bydwreigiaeth ar lefel a oedd islaw'r cyflenwad gofynnol ar 11 diwrnod. (Gofyniad o 13 neu 14 os caiff y cydgysylltydd Band 7 ei gynnwys).</p> <p>Yn ogystal, ar 7 Medi 2023, dywedwyd wrthym mai dim ond 9 bydwraig a oedd wedi'u cadarnhau ar gyfer y shifft nos.</p> <p>Ni chafodd AGIC sicrwydd fod lefelau digonol o staff bydwreigiaeth na lefelau digonol o ran y cymysgedd sgiliau ar gael fel mater o drefn ar gyfer shifftiau er mwyn sicrhau y gellid darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.</p>				
1. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y ffordd y bydd yn sicrhau bod digon o staff sy'n meddu ar		Mae'r Pennaeth Bydwreigiaeth yn dal i gadeirio Cyfarfodydd Uwchgyfeirio Problemau Staffio dyddiol er mwyn goruchwyllo'r lefelau staffio dyddiol	Cyfarwyddwr y Grŵp Gwasanaeth a Chyfarwyddwr	Wedi'i ddechrau 11.09.23 â

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>gymwysterau addas ac sydd wedi cael hyfforddiant addas ar gael ar bob shiftt yn y gwasanaeth mamolaeth.</p>		<p>a monitro ansawdd, diogelwch ac unrhyw ddigwyddiadau niwed.</p> <p>Mae hyn yn cynnwys goruchwyllo lefelau staffio dros gynllun treigl 8 wythnos er mwyn defnyddio'r holl opsiynau sydd ar gael i'r Bwrdd lechyd i sicrhau y caiff y niferoedd hyn eu cynnal a'u lliniaru fel y bo angen. Bydd hyn yn cynnwys Asiantaeth nad yw'n rhan o'r Fframwaith a Goramser Uwch, a chaiff ei fonitro drwy gyfarfodydd staffio wedi'u harwain gan Gyfarwyddwr y Grŵp Gwasanaeth a'u cefnogi gan y tîm mamolaeth.</p> <p>Bydd fformat y cyfarfod yn cynnwys lliniaru risgiau ac uwchgyfeirio risgiau i Gyfarwyddwyr y Grŵp Gwasanaeth i ddechrau gan ddefnyddio'r prosesau rheoli risg a llywodraethu ansawdd, ac uwchgyfeirio achosion i'r Tîm Gweithredol fel y bo angen.</p> <p>Rhoi adborth i'r staff drwy fforymau agored wythnosol â Chyfarwyddwr yn bresennol er mwyn rhoi'r</p>	<p>Nyrsio'r Grŵp Gwasanaeth</p> <p>Fel uchod</p> <p>Fel uchod</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth / Dirprwy</p>	<p>phroses fonitro barhaus</p> <p>Newidiwyd y fformat 18.9.23</p> <p>22.9.23 Wedi'i ddechrau</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y camau sy'n cael eu cymryd i gadw'r gwasanaeth yn ddiogel ac i sicrhau bod digon o staff.</p> <p>Cofrestr Risg y Bwrdd Iechyd (ID 2788) yn amlinellu'r rheolaethau a'r camau lliniaru:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Parhau i atal y gwasanaeth Geni Gartref a'r Uned Eni Annibynnol er mwyn cefnogi lefelau staffio diogel yn unol â Chanllawiau RCOG • Cynllun uwchgyfeirio yn defnyddio bydwagedd arbenigol, rheolwyr ward, Bydwagedd Arweiniol Band 8a a Metron er mwyn cefnogi lefelau staffio diogel lle bo angen • Cynllun trefnu ymlaen llaw ar gyfer bydwagedd o'r banc bydwreigiaeth a bydwagedd asiantaeth, gwnaed cais am bob shift hyd at 18 Tachwedd 2023 	<p>Bennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Cyfarwyddwr y Grŵp Gwasanaeth a Chyfarwyddwr Nyrso'r Grŵp Gwasanaeth</p>	<p>Adolygiadau bob pythefnos â phroses fonitro barhaus (Wedi'i ddechrau ac yn broses barhaus)</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>llesiant ac absenoldeb staff. Mae'r mater hwn yn cael ei drafod â'r Tîm Adnoddau Dynol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r Pennaeth Bydwreigiaeth yn cael cyfarfodydd rheolaidd (bob pythefnos) â Chyfarwyddwr RCM <p>Sicrhau y rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bartneriaeth Lleisiau Mamolaeth a Llais.</p> <p>Cyflymu'r broses o gynnal gwiriadau cyn cyflogi ar gyfer y garfan o fydwragedd sydd newydd gael eu recriwtio drwy'r Tîm Recriwtio Canolog, y mae disgwyl iddynt ddechrau yn eu swyddi yn ystod mis Hydref/Tachwedd 2023 (21.8 CALL)</p> <p>Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli salwch tymor hir yn unol â'r Polisi</p>	<p>Adnoddau Dynol Prifysgol Bae Abertawe</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth ac Adnoddau Dynol</p> <p>Metron</p> <p>Bydwraig Trawsnewid y Gweithlu</p> <p>Cyfarwyddwyr y Grŵp Gwasanaeth,</p>	<p>Wedi'i gwblhau 11.9.23</p> <p>31.10.23</p> <p>Hysbyseb newydd wedi'i chynllunio ar gyfer yr wythnos sy'n dechrau 18.9.23 Wedi'i gwblhau</p> <p>Dyddiad cwblhau'r hyfforddiant 31 Gorffennaf 2024</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Presenoldeb yn y Gwaith a adolygwyd gan Dîm y Gweithlu yn ystod yr wythnos yn dechrau 11.09.23. Cadarnhaodd y tîm fod y trefniadau yn cydymffurfio â'r polisi. Gwnaed rhagor o waith ar fyrder gan Dîm y Gweithlu.</p> <p>Caiff y strategaeth llesiant ei haddasu gyda chymorth gan yr adran Adnoddau Dynol a'r adran Datblygiad Sefydliadol.</p> <p>Ymgyrch recriwtio ragweithiol a threfniadau recriwtio treigl mewn perthynas â'r Banc Bydwreigiaeth.</p> <p>Mae'r Fydwraig Trawsnewid y Gweithlu yn helpu i hyfforddi a datblygu Cynorthwywyr Gofal Mamolaeth er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cymysgedd sgiliau a chapasiti'r gweithlu. Ar hyn o bryd, mae 11 wrthi'n cael eu hyfforddi ac yn cyflenwi fel rhan o'r gwasanaeth. Disgwylir iddynt gwblhau eu</p>	<p>ond o dan arweiniad y Pennaeth Bydwreigiaeth</p>	<p>Disgwylir iddo gael ei roi ar waith ddiwedd mis Ionawr 2024 gan ddibynnu ar ganlyniad y gwaith ymgynghori</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>hyfforddiant a'u cymwyseddau yn llawn erbyn mis Gorffennaf 2024</p> <p>Mae dwy Broses Newid Sefydliadol yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd yn unol â'r gwaith Trawsnewid Mamolaeth er mwyn cynyddu capasiti'r gweithlu i'r eithaf. Proses Newid Sefydliadol yr Uned Obstetrig - dechreuodd 10.7.23 Proses Newid Sefydliadol Gymunedol - dechreuodd 11.9.23</p>		

Canfyddiadau

Cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ofyn am fanylion hyfforddiant staff gorfodol. O'r wybodaeth a roddwyd, gwnaethom nodi lefelau cydymffurfiaeth gwael â hyfforddiant gorfodol o fewn pob arbenigedd (meddygon a bydwagedd). Cawsom drosolwg o'r cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol ar gyfer mis Medi 2023 a oedd yn dangos canrannau cydymffurfiaeth cyffredinol manwl â hyfforddiant gorfodol fesul adran (canolfan gostau). Nid oedd gwybodaeth am gydymffurfiaeth â chysiau unigol ar gael yn hwylus ar gyfer pob adran a chyflwynwyd cyfraddau cydymffurfiaeth canrannol cyffredinol. Roedd y cyfraddau cydymffurfio fel a ganlyn ar gyfer hyfforddiant gorfodol:



Women's Health & Ophthalmology Division
Mandatory Training Compliance by Cost Centre Report September 2023

Cost Centre	Data source		ESR				Data snapshot				31/08/2023				Grand Total	% with 100% Compliance	
	0	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13			14
130 H315 JIGSO									1	1		1	1	1	5	10	50.00%
130 H318 Midwifery Flying Start NPT													1		2	3	66.67%
130 H408 SN Ward 20/Postnatal Ward				3	1	1		2	1	1	4	3	7	4	10	37	27.03%
130 H425 SN Obs & Gynae Medical Specialty	1			2	2	1	4	1	5	3	3	2	2	9	24	59	40.68%
130 H431 NPTH Birth Centre											3		2	4	17	26	65.38%
130 H433 SN Ante-Natal Clinic							1			2	1		1		11	16	68.75%
130 H435 SN Bay Birth Centre													1		5	6	83.33%
130 H437 West Community Midwives - South Team				1				1	1		2	1	3	8	13	30	43.33%
130 H443 SN Ward 19 / Antenatal Ward			1		1						2	1		4	15	24	62.50%
130 H444 SN Maternity	2		1			2		2	2	3	7	6	12	15	50	102	49.02%
Grand Total	6	5	6	9	8	9	10	10	12	15	33	23	63	100	433	742	

Cawsom dystiolaeth bellach a oedd yn cadarnhau lefelau cydymffurfiaeth isel â hyfforddiant GAP Grow gorfodol yn y tîm bydwreigiaeth. Roedd y wybodaeth yn dangos mai 67% o'r bydwreigiaeth a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant GAP Grow yn ystod y 12 mis diwethaf. Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth gan y tîm meddygol.

Felly ni chafodd AGIC sicrwydd fod **pob aelod o'r staff** a oedd yn darparu gofal Obstetrig wedi cael yr hyfforddiant cyfredol perthnasol nac yn meddu ar y sgiliau cyfredol perthnasol i roi gofal a thriniaethau diogel i bob menyw a baban roeddent yn gofalu amdanynt.

Mae hyn yn peri risg bosibl i ddiogelwch a llesiant menywod a babanod.

<p>2. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwella cydymffurfiaeth â'r holl hyfforddiant gorfodol 	<p>Diogel</p>	<p>Hyfforddiant Gorfodol Craidd y Bwrdd Iechyd: Cynllun gwella â thargedau fesul cam - o leiaf 70% ar gyfer pob maes erbyn 31.10.23 ac 85% erbyn 30.11.23. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant parhaus drwy ddiwrnodau astudio Gorfodol a Statudol yn ogystal â rhoi blaenoriaeth ar y rhestrau gweithio i staff y mae angen cymorth arnynt i gyflawni cydymffurfiaeth, ond gan ystyried hynny ochr yn ochr â chynnal lefelau staffio diogel.</p> <p>Hyfforddiant Gorfodol GAP Grow: Diwygiwyd y diwrnod astudio Gorfodol a Statudol ar 14.9.23 i gynnwys amser penodol i ymgymryd â hyfforddiant GAP Grow (neilltuwyd 2 awr). Bydd y newid hwn yn newid parhaus.</p> <p>Blaengynllun i roi amser penodol i fydwagedd gwblhau modiwl eDdysgu GAP Grow gyda'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth o 95% erbyn 30.11.23.</p> <p>Mae gan y staff meddygol lefel cydymffurfiaeth o 88% â hyfforddiant GAP Grow. Mae'r</p>	<p>Bydwagedd Datblygu Ymarfer</p> <p>Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Arweinydd Clinigol</p>	<p>Cydymffurfiaeth o 85% erbyn 30.11.23</p> <p>Wedi'i ddechrau 14.09.23</p> <p>Cydymffurfiaeth darged o 95% erbyn 30.11.23</p> <p>30.11.23</p>
--	---------------	---	---	--

<ul style="list-style-type: none"> • hyrwyddo diogelwch cleifion yn y cyfamser hyd nes i gydymffurfiaeth wella • gwella'r system sydd ar waith ar gyfer cofnodi, monitro a gwella cydymffurfiaeth pob aelod o'r staff yn yr adran â hyfforddiant. galluogi arweinwyr i weld lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant mewn amser real. 		<p>Arweinydd Clinigol yn arwain y gwaith o wella cydymffurfiaeth gan anelu at gydymffurfiaeth o 100% ar gyfer yr holl staff sydd ar gael erbyn 30.11.23 (<i>mae angen i 12 o obstetregwyr sicrhau cydymffurfiaeth o hyd</i>). Caiff hyn ei drafod ymhellach yn y Cyfarfod Archwilio ar 18.10.23 a chaiff cyflwyniad ei rannu er mwyn gwella cydymffurfiaeth.</p> <p>Hyfforddiant GAP Grow a Hyfforddiant Gorfodol Craidd y Bwrdd Iechyd: Cyflwynir adroddiadau ar y rhain i'r Fforwm Hyfforddiant ac Addysg Mamolaeth a chyflwynir adroddiadau ar unrhyw eithriadau i'r Grŵp Ansawdd a Diogelwch Mamolaeth. Caiff pob digwyddiad ar Datix ei adolygu er mwyn sicrhau nad yw hyfforddiant yn ffactor cyfrannol.</p> <p>Hyfforddiant Gorfodol Craidd: Caiff y trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant eu gwella:</p> <p>Mae gan bob arweinydd bydwreigiaeth a'r Rheolwr Isadrannol Cynorthwyol sy'n goruchwyllo'r staff</p>	<p>Arweinydd Clinigol a'r Pennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Rheolwr Isadrannol Cynorthwyol a'r Pennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p>	<p>Fforwm Hyfforddiant ac Addysg 04.10.23 Grŵp Ansawdd a Diogelwch 09.10.23 â phroses fonitro barhaus</p> <p>Wedi'i gwblhau 02.10.23</p> <p>20.10.23</p>
---	--	--	---	--

		<p>meddygol bellach fynediad i adroddiadau sy'n rhan o'r Cofnodion Staff Electronig sy'n nodi cydymffurfiaeth â hyfforddiant.</p> <p>Bydd arweinwyr ardal yn cael hyfforddiant yn ystod y pythefnos nesaf i'w galluogi i ddefnyddio'r system er mwyn gallu gweld lefelau cydymffurfiaeth mewn amser real.</p> <p>Hyfforddiant GAP Grow: Rhoi blaenoriaeth i hyfforddiant GAP Grow i fydwragedd cymunedol. Mae'r Sefydliad Amenedigol yn rhoi adroddiadau misol i fydwragedd datblygiad proffesiynol ar gydymffurfiaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe â hyfforddiant. Mae bydwragedd datblygiad proffesiynol yn rhoi gwybodaeth i'r Pennaeth Bydwreigiaeth bob wythnos ar gydymffurfiaeth â hyfforddiant GAP Grow ar ôl cael tystysgrifau. Mae bydwragedd datblygiad proffesiynol yn parhau i anfon negeseuon atgoffa wythnosol, sy'n cynnwys gwybodaeth am sut i gael gfael ar yr hyfforddiant. Caiff aelodau o staff nad ydynt yn cydymffurfio hefyd eu huwchgyfeirio i'r arweinwyr ardal er</p>	Metron Gymunedol	31.10.23
--	--	--	---------------------	----------

		mwyn iddynt drafod y mater â'r aelodau unigol o staff.		
<p>Canfyddiadau</p> <p>Gwirio dadebrwyr</p> <p>Nododd AGIC fod cofnodlyfrau gwirio dadebrwyr yr uned famolaeth wedi'u storio mewn ystafell tîm ar wahân i'r dadebrwyr unigol. O ystyried bod y dadebrwyr yn cael eu symud o gwmpas, ni chafodd AGIC sicrwydd fod y system ar gyfer eu gwirio yn cynnig lefel ddigonol o sicrwydd fod pob dadebrwr wedi cael ei wirio er mwyn nodi diffygion cyn iddo gael ei ddefnyddio mewn argyfwng a'i fod yn cael ei wirio eto bob tro ar ôl ei ddefnyddio.</p> <p>Gwirio diffibrilwyr</p> <p>Gwriodd AGIC ddiffibriliwr ar y troli dadebru yn yr uned (un o dri diffibriliwr). Nodwyd gennym nad oedd unrhyw dystiolaeth o wiriadau dyddiol yn cael ei chofnodi i nodi diffygion cyn ei ddefnyddio mewn argyfwng nac i ddangos ei fod yn cael ei wirio eto bob tro ar ôl ei ddefnyddio.</p> <p>Felly, ni chafodd AGIC sicrwydd fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal yn unol â pholisi/gofynion y bwrdd iechyd i sicrhau bod y cyfarpar angenrheidiol ar gael ac yn addas i'w ddefnyddio pe byddai argyfwng yn ymwneud â chlaf.</p> <p>Mae hyn yn peri risg bosibl i ddiogelwch a llesiant y cleifion pe bai argyfwng yn ymwneud â chlaf.</p>				
3. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) am y camau a gymerwyd i sicrhau bod yr holl gyfarpar yn ddiogel i'w ddefnyddio, yn gweithio'n effeithiol ac yn cael ei wirio bob dydd a bod		Mae'r Arweinydd yn ystod Genedigaeth a Rheolwr y Ward wedi rhoi rhestr wirio ar waith ar gyfer pob dadebrwr. Bydd y cydgysylltwyr Band 7 yn sicrhau cydymffurfiaeth bob dydd.	Arweinydd yn ystod Genedigaeth/R heolwr y Ward	Wedi'i gwblhau 11.09.23 â phroses barhaus ar gyfer monitro cydymffurfiaeth

tystiolaeth o'r gwiriadau i'w gweld ar y darnau unigol o gyfarpar neu wrth ymyl y darnau o gyfarpar.		Ychwanegwyd y diffibriliwr at y rhestr wirio ddyddiol - Ward 20.	Metron Obstetrig	Wedi'i gwblhau 18.09.23
<p>Canfyddiadau</p> <p>Diogelwch</p> <p>Ystyriodd y tîm arolygu ddiogelwch babanod newydd-anedig yn yr uned famolaeth. [Golygwyd] Roedd hyn, ynghyd â'r prinder staff bydwreigiaeth ym mhob rhan o'r uned, yn golygu na chafodd AGIC sicrwydd fod yr uned yn ddigon diogel i leihau'r risg y byddai baban yn cael ei herwgydio.</p>				
4. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau pellach y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod mesurau ar waith i wneud yn siŵr bod babanod yn ddiogel ym mhob rhan o'i wasanaethau mamolaeth er mwyn atal babanod rhag cael eu herwgydio.		[Cafodd y wybodaeth a ddarparwyd ei golygu]	Cyfarwyddwyr y Grŵp Gwasanaeth Metron Obstetrig Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth. Metron Obstetrig a Rheolwr Ward 20 Metron Obstetrig	14.09.23 Cafodd asesiad ei gwblhau drwy gerdded o amgylch yr uned ar 14.9.23 22.9.23 Adborth o'r ymarfer - wedi'i gwblhau 30.11.23 diweddarwyd y polisi 30.11.23

			Metron Obstetrig a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio Cyfalaf/Iechyd a Diogelwch	31.12.23 13.10.2023 (Cwblhau'r arolwg yn llawn)
			Metron Obstetrig a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio Cyfalaf/Iechyd a Diogelwch	30.11.2023 (Rhoddwyd rheolaethau ymadael manylach ar waith yn llawn)

Canfyddiadau

Trosglwyddo meddygol

Gwelsom fod trefniadau trosglwyddo meddygol ar waith ar gyfer gofal yn ystod genedigaeth a gofal cynenedigol, a bod y trefniadau trosglwyddo hyn yn cael eu cynnal ar wahân gyda meddygon ymgynghorol ar alwad gwahanol. Nid yw elfen yn ystod genedigaeth y trefniadau trosglwyddo yn cynnwys y cleifion hynny y mae angen ysgogi'r cyfnod esgor ar eu cyfer yn ddigonol, ac nid yw'n adlewyrchu statws cyfredol cleifion ar y ward gynenedigol ychwaith. Cawsom wybod y byddai'r meddyg ymgynghorol sy'n gofalu am gleifion cynenedigol yn trafod y cleifion ar y ward gynenedigol â meddyg ymgynghorol y ward esgor er mwyn cynllunio gofal diogel. Nid oedd unrhyw dystiolaeth fod y trafodaethau hyn yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac mae angen ymdrin â'r risg hon ar fyrder.

<p>5. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau gweithredu pellach y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod y trafodaethau trosglwyddo meddygol rhwng gofal cleifion cynenedigol a gofal yn ystod genedigaeth yn effeithiol, yn cael eu cofnodi a'u cyfleu'n rheolaidd, gan sicrhau bod pob menyw ym mhob rhan o'r uned yn cael ei blaenoriaethu'n effeithiol ac mewn modd amserol er mwyn sicrhau'r llif cleifion gorau posibl a lleihau'r risg y byddai cyflwr unrhyw glaf yn dirywio.</p>		<p>Rhoddyd proses ar waith lle caiff y daflen trosglwyddo cynenedigol ei llofnodi gan Feddyg Ymgynghorol y Ward Gynenedigol a'r Meddyg Ymgynghorol sydd ar alwad ar gyfer cleifion yn ystod genedigaeth er mwyn sicrhau bod cofnod o'r broses drosglwyddo.</p> <p>Mae'r Meddyg Ymgynghorol Obstetrig a'r Arweinydd yn ystod Genedigaeth yn cynnal prosiect gwella ymarfer sy'n canolbwyntio ar y broses trosglwyddo meddygol. Wedi'i ddechrau 11.09.23 a chaiff proses archwilio ei chadarnhau er mwyn rhoi sicrwydd.</p> <p>Caiff y canlyniadau eu cyflwyno i'r Fforwm Ansawdd a Diogelwch Mamolaeth ar ôl cwblhau'r prosiect.</p>	<p>Cyfarwyddwr Clinigol</p> <p>Arweinydd Clinigol a'r Fydwraig Arweiniol ar gyfer Gofal yn ystod Genedigaeth</p>	<p>Gweithredwyd yn ystod cyfarfod meddygon ymgynghorol ar 08.09.23</p> <p>31.10.23 (Cyflwyno adroddiad i'r Fforwm)</p>
<p>Atal a rheoli heintiau</p> <p>Ar 5 Medi 2023 gwelsom y canlynol yn yr uned dibyniaeth isel:</p> <ul style="list-style-type: none"> • staeniau gwaed ar droli • gwastraff gwaedlyd wedi'i waredu mewn bin gwaredu gwydr • oedi wrth newid llenni tafladwy (y dyddiad ar un oedd mis Rhagfyr 2022 a'r dyddiad ar un arall oedd mis Tachwedd 2022). <p>Ni chafodd AGIC sicrwydd fod prosesau effeithiol ar waith nac yn cael eu dilyn i atal heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd.</p>				

<p>6. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i hyrwyddo trefniadau effeithiol ar gyfer atal a rheoli heintiau a dihalogi.</p> <ul style="list-style-type: none"> • staeniau gwaed ar droli • gwastraff gwaedlyd wedi'i waredu mewn bin gwaredu gwydr • oedi wrth newid llenni tafladwy (y dyddiad ar un oedd mis Rhagfyr 2022 a'r dyddiad ar un arall oedd mis Tachwedd 2022). 	<p>Diogel</p>	<p>Ymdriniwyd â'r staeniau gwaed ar y troli ar unwaith.</p> <p>Ymdriniwyd â'r gwastraff gwaedlyd yn y bin gwaredu gwydr ar unwaith. Mae'r holl finiau oren bellach wedi'u lleoli yn yr ardaloedd clinigol yn unol â pholisi'r Bwrdd Iechyd o ran gwaredu gwastraff clinigol.</p> <p>Rhodddwyd llenni newydd yn lle'r hen lenni. Cytundeb â'r adran Gwasanaethau Gwesty ar 09.09.23 y bydd y Tîm Cadw Tŷ yn monitro cydymffurfiaeth. Ceir sicrwydd pellach drwy gynnwys y gwiriad fel rhan o Archwiliad Sicrwydd Misol y Metronau</p> <p>Trafodwyd y gwersi a ddysgwyd o ganfyddiadau AGIC â'r tîm amlddisgyblaethol cyfan yn ystod sesiynau briffio diogelwch a chyfarfodydd trosglwyddo ym mhob ardal glinigol.</p> <p>Bydd y Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth, Metron, Rheolwr y Ward a Chydgysylltwyr y Ward Esgor yn cwblhau hapwiriadau wythnosol</p>	<p>Cydgysylltydd y Ward Esgor</p> <p>Gwasanaethau Gwesty</p> <p>Gwasanaethau Gwesty</p> <p>Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Metron Obstetrig</p>	<p>Wedi'i gwblhau 5.9.23</p> <p>Wedi'i gwblhau 5.9.23</p> <p>Wedi'i gwblhau 9.9.23 i'w ychwanegu at Archwiliad y Fetron erbyn 29.9.23</p> <p>Wedi'i ddechrau yr wythnos yn dechrau 11.9.23</p> <p>Wedi'i ddechrau</p>
--	----------------------	--	---	---

		o'r ardaloedd clinigol hyd nes y ceir sicrwydd. Rhoddwyd proses debyg ar waith ar gyfer Ward 19 a Ward 20.		yr wythnos yn dechrau 18.9.23
<p>Canfyddiadau Trefniadau storio a gwirio meddyginiaethau -</p> <p>Ar 5 Medi, gwelsom fod dau gwpwrdd storio â mynediad bysellbad ar gyfer storio hylifau a chyfarpar meddygol wedi'u gadael ar agor gan ddefnyddio'r glicied a bod codau mynediad y bysellbad wedi'u hysgrifennu ar sticeri ar y drysau. Roedd y cypyrddau wedi'u lleoli ar brif goridor yr uned ac roedd modd i unrhyw ymwelydd, claf neu aelod o staff heb awdurdod gael mynediad iddynt. Ni chafodd AGIC sicrwydd fod hylifau ar yr uned famolaeth yn cael eu storio'n briodol i leihau'r risg o fynediad heb awdurdod.</p> <p>Mae hyn yn peri risg bosibl i ddiogelwch a llesiant y cleifion ac unigolion eraill a all gael gafeael ar feddyginiaethau nad ydynt ar eu cyfer, ymyrryd â meddyginiaethau o'r fath a / neu eu llyncu.</p>				
<p>7. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i storio hylifau a ddefnyddir ar yr uned famolaeth yn ddiogel er mwyn helpu i atal achosion o fynediad heb awdurdod.</p>	<p>Diogel</p>	<p>Tynnwyd y sticeri a oedd yn nodi codau'r drysau ar unwaith.</p> <p>Cafodd codau'r drysau eu newid ar 11.9.23</p> <p>Rhoddwyd gwybod i Gydgyssylltwyr y Ward Esgor a rheolwr y ward er mwyn sicrhau bod y cypyrddau yn cael eu cadw dan glo.</p> <p>Mae'r Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth wedi bod yn cynnal hapwiriadau ers ymweliad AGIC er</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Cydgysylltwyr y Ward Esgor a Rheolwr y Ward</p> <p>Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth</p>	<p>Wedi'i gwblhau 05.09.23</p> <p>Wedi'i gwblhau 11.9.23</p> <p>Wedi'i gwblhau 05.09.23</p> <p>yr wythnos yn dechrau 11.9.23</p>

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Uned Famolaeth, Ysbyty Singleton, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 5 - 7 Medi 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<u>Ansawdd profiad y claf</u>				
Staffio 1. Nododd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion fod y problemau staffio wedi cael effaith negyddol ar eu profiad.	Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried yr adborth gan gleifion mewn perthynas â lefelau staffio a rhoi gwelliannau ar waith.	<ul style="list-style-type: none"> - Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau recriwtio staff a'r cynlluniau parhaus i ddenu staff i'r gwasanaeth i fforwm y Bartneriaeth Lleisiau Mamolaeth. - Datblygu cynllun i annog defnyddwyr i roi mwy o adborth a sicrhau y caiff yr holl adborth ei rannu ac y gweithredir arno. - Ystyried y posibilrwydd o ailgyflwyno gwirfoddolwyr ar Ward 20 	<ul style="list-style-type: none"> - Pennaeth Bydwreigiaeth/Bydwraig Ymgynghorol - Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth/Bydwraig Ymgynghorol - Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth 	<ul style="list-style-type: none"> - Rhagfyr 2023 - I ddechrau ym mis Chwefror 2024 - Ionawr 2024

		a Ward 19 gan eu bod yn aml yn gallu rhoi cymorth sylfaenol iawn i fenywod a staff. Caiff canlyniad yr adolygiad ei gyflwyno yn ystod cyfarfod y Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Metronau.		
<p>Hybu iechyd</p> <p>2. Gwelsom rywfaint o wybodaeth hybu iechyd ar yr uned famolaeth ac ar-lein. Ar-lein, roedd dolenni nad oeddent yn gweithio. Prin oedd y wybodaeth iechyd y cyhoedd a oedd ar gael mewn gwahanol ieithoedd.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth a dolenni iechyd y cyhoedd mewn perthynas â beichiogrwydd ar gael, ac y cânt eu diweddarau er mwyn cynnwys y canllawiau a'r wybodaeth ddiweddaraf i fenywod a theuluoedd.</p> <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth iechyd y cyhoedd mewn perthynas â beichiogrwydd ar gael mewn gwahanol ieithoedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Mae'r dolenni a oedd wedi torri wedi cael eu trwsio - Adolygu a diweddarau'r wefan mamolaeth ac ystyried cyfleoedd ehangach i rannu gwybodaeth (gan gynnwys gwybodaeth iechyd y cyhoedd). - Ystyried opsiynau awtoymateb ar gyfer dewisiadau iaith eraill yn y system ddigidol newydd ar gyfer atgyfeirio cleifion. - Mae gwefan y bwrdd iechyd yn cynnwys cyfleuster sy'n cyfieithu 	<ul style="list-style-type: none"> - Pennaeth Cyfathrebu - Bydwraig Gwybodeg Arweiniol/Bydwraig Iechyd y Cyhoedd/Rheolwr y Gwasanaeth gyda chymorth Gwasanaethau Digidol y Bwrdd Iechyd. - Rheolwr is-adrannol y gwasanaeth gyda chymorth Gwasanaethau Digidol y Bwrdd Iechyd. - Bydwraig Iechyd y Cyhoedd 	<ul style="list-style-type: none"> - Wedi'i gwblhau - Mawrth 2024 - Chwefror 2024 - Ionawr 2024

		<p>testun i ieithoedd eraill pan fydd y defnyddiwr yn dewis gwneud hynny (a gall gosodiadau porwr y defnyddiwr hefyd gyfieithu tudalennau yn awtomatig i'w ddewis iaith). Fodd bynnag, bydd y gwasanaeth yn adolygu'r holl wybodaeth a ddarperir i gleifion mewn ieithoedd eraill.</p>		
<p>Menter Baby Friendly UNICEF</p> <p>3. Gwnaethom edrych ar fwrdd gwybodaeth menter Baby Friendly (BFI) UNICEF yn yr ardal asesu dydd. Nid oedd pob aelod o'r staff na'r gweithwyr gofal iechyd y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o lefel achredu menter Baby Friendly yr uned.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd wella ymwybyddiaeth menywod a staff o fenter, gwybodaeth a lefel achredu Baby Friendly UNICEF.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Anelu at sicrhau cydymffurfiaeth o 95% o ran nifer y staff sydd wedi mynychu hyfforddiant deuddydd BFI. - Rhannu lefel achredu'r Bwrdd Iechyd ar hysbysebion ac ar y wefan recriwtio. - Rhannu lefel achredu BFI y Bwrdd Iechyd yn rheolaidd yn ystod cyfarfodydd timau staff, gan gynnwys cyfraddau 	<ul style="list-style-type: none"> - Bydwraig Bwydo Babanod Arweiniol/Rheolwr y Gwasanaeth/Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth - Arweinydd Bwydo Babanod gyda chymorth gan arweinydd y gweithlu - Arweinydd Bwydo Babanod 	<ul style="list-style-type: none"> - Ionawr 2025 - Chwefror 2024 - Ionawr 2024

		bwydo ar y fron y Bwrdd lechyd a lefelau cydymffurfiaeth â chanllawiau.		
Cymorth bwydo ar y fron 4. Dywedodd menywod wrthym (wyneb yn wyneb a thrwy'r holiadur) nad oedd cymorth bob amser ar gael i fenywod fwydo eu babanod.	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y lefel briodol o gymorth, cyngor ac arweiniad bwydo ar y fron ei rhoi i bob menyw sy'n awyddus i fwydo ar y fron yn ystod eu cyfnod yn yr uned famolaeth.	<ul style="list-style-type: none"> - Rhoi adborth i'r staff am y sylwadau a gafwyd gan fenywod er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol ohonynt - i'w gynnwys fel rhan o sesiynau briffio diogelwch/cyfarfodydd trosglwyddo/ymweliadau â'r wardiau - Rhoi rôl newydd y Cynorthwydd Gofal Mamolaeth ar waith yn y Gwasanaethau Mamolaeth er mwyn helpu menywod i fwydo ar y fron. - Recriwtio unigolyn drwy gyllid ymchwil am gontract cyfnod penodol 12 mis o hyd fel Gweithiwr Cymorth Gofal lechyd (band 2/B3) wedi'i hyfforddi'n benodol i roi cymorth bwydo ar y fron. 	<ul style="list-style-type: none"> - Rheolwyr y Wardiau /Metron/Pennaeth Bydwreigiaeth/Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth - Hwylusydd Bydwagedd/Bydwraig Trawsnewid y Gweithlu - Bydwraig Ymchwil a'r Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth - Dirprwy Bennaeth 	<ul style="list-style-type: none"> - Tachwedd 2023 - Medi 2024 - I'w penodi ym mis Gorffennaf 2024 - Chwefror 2024

		<p>Monitro effaith y swydd hon er mwyn gallu defnyddio'r wybodaeth fel rhan o geisiadau achos busnes yn y dyfodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Bydd y gwasanaeth yn adolygu'r opsiwn o ailgyflwyno cefnogwyr cymheiriaid bwydo ar y fron ar y ward ôl-enedigol â'r grŵp cymorth cymheiriaid lleol <ul style="list-style-type: none"> - gan gyflwyno canlyniad yr adolygiad yn ystod cyfarfod y Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Metronau. - Gyda chymorth y Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd, bydd y Fydwraig Bwydo Babanod yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn hyderus yn rhoi cymorth bwydo ar y fron i fenywod - rhoddir hyfforddiant penodol i ddiwallu unrhyw 	<p>Bydwreigiaeth a'r Fydwraig Bwydo Babanod Arweiniol</p> <ul style="list-style-type: none"> - Bydwraig Bwydo Babanod Arweiniol a'r Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd - Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth/Bydwraig Bwydo Babanod Arweiniol - Pennaeth Ansawdd, 	<ul style="list-style-type: none"> - Mawrth 2024 - Mawrth 2024 - I ddechrau ym mis
--	--	--	--	---

		<p>anghenion a nodir</p> <ul style="list-style-type: none"> - Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf am hyfforddiant bwydo babanod BIP Bae Abertawe a diweddariadau BFI i aelodau rheolaidd o staff banc a staff asiantaeth (gan gynnwys gweithwyr cymorth gofal iechyd) - Cytuno ar amser penodol i'r Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) gynnal arolygon wyneb yn wyneb wythnosol ar yr uned er mwyn annog adborth ar brofiad cleifion. 	<p>Diogelwch a Risg Grŵp Gwasanaeth Singleton a Chastell-nedd Port Talbot/PALS</p>	<p>Rhagfyr 2023</p>
<p>Yr amgylchedd</p> <p>5. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd modd defnyddio pob un o'r cawodydd ar y ward gynenedigol. Dywedwyd wrthym fod yr adran ystadau wedi cael ei hysbysu am y mater ac y</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd roi proses gadarn ac effeithiol ar waith i sicrhau y caiff diffygion eu datrys ac y caiff gwelliannau eu gwneud gan yr adran ystadau mewn modd amserol ac i safon ddigonol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Ers yr arolygiad, mae'r tîm Ystadau wedi trwsio pob cawod ac mae pob cawod yn gweithio. - Rhannu canfyddiadau'r adroddiad â Thîm Ystadau'r Bwrdd Iechyd a rhoi arolygon Atal a 	<ul style="list-style-type: none"> - Pennaeth Bydwreigiaeth gyda chymorth y Tîm Ystadau - Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth, gyda 	<ul style="list-style-type: none"> - Wedi'i gwblhau - I'w rannu ym mis

<p>bu oedi wrth ymgymryd â'r gwaith atgyweirio. Roedd hyn wedi cael effaith negyddol ar brofiad cleifion.</p>		<p>Rheoli Heintiau chwarterol ar waith, gan gynnwys arweinwyr mamolaeth/rheoli heintiau ac Ystadau ym mhob ardal glinigol, er mwyn sicrhau y caiff diffygion eu nodi a'u datrys yn brydlon lle y bo'n bosibl gwneud hynny.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Bydd y gwasanaeth yn uwchgyfeirio materion atal a rheoli heintiau nas ymdriniwyd â nhw drwy gyfarfod Rheoli Heintiau'r Grŵp Gwasanaeth. Caiff risgiau sy'n gysylltiedig â materion amgylcheddol nas ymdriniwyd â nhw eu cofnodi ar gofrestr risg y gwasanaeth a'u huwchgyfeirio drwy'r grŵp gwasanaeth ac ar lefel gorfforaethol yn unol ag awydd risg y bwrdd iechyd. 	<p>chymorth yr Arweinydd Rheoli Heintiau a chynrychiolydd o'r adran Ystadau</p> <ul style="list-style-type: none"> - Pennaeth Bydwreigiaeth, Rheolwr Is-adrannol ac Arweinydd y Grŵp Gwasanaeth 	<p>Rhagfyr 2023 ac arolygon chwarterol o fis Ionawr 2024</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mawrth 2024
<p>6. Roedd lleoliad a</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Bydd y gwasanaeth 	<ul style="list-style-type: none"> - Bydwraig profedigaeth, 	<ul style="list-style-type: none"> - Ionawr

<p>mynediad i'r ystafell brofedigaeth drwy'r ward esgor a oedd yn cael effaith ar breifatrwydd ac urddas y menywod a'r teuluoedd y gallai fod angen iddynt ddefnyddio'r ystafell hon.</p>	<p>lleoliad presennol yr ystafell brofedigaeth gan anelu at symud y gwasanaeth i ardal nad yw yng nghanol y ward esgor / sicrhau nad oes yn rhaid i gleifion ddod drwy'r ward esgor i'w chyrraedd.</p>	<p>mamolaeth yn ystyried lleoliadau amgen ar gyfer ystafell brofedigaeth y ward esgor - gan sicrhau y caiff diogelwch clinigol menywod ei gynnal hefyd ac yn rhoi adborth i Gyfarwyddwyr y Grŵp Gwasanaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Chwilio am gyfleoedd eraill i wella preifatrwydd yr ystafell. - Bydd y Bwrdd Iechyd yn meincnodi'r cyfleusterau o gymharu â byrddau iechyd eraill - Chwilio am fenyw neu deulu i rannu eu profiad mewn stori a allai helpu'r staff wrth roi cymorth i rieni yn ystod y cyfnod trist hwn. - Diweddarau'r gofrestr risg i adlewyrchu'r camau lliniaru a ddefnyddiwyd 	<p>Tîm Clinigol, gyda chymorth gan gynrychiolydd o'r Bartneriaeth Lleisiau Mamolaeth ac arweinydd yr adran Ystadau</p> <ul style="list-style-type: none"> - Bydwraig profedigaeth, Tîm Clinigol, gyda chymorth gan gynrychiolydd o'r Bartneriaeth Lleisiau Mamolaeth ac arweinydd yr adran Ystadau - Bydwraig profedigaeth, Tîm Clinigol, gyda chymorth gan y Bartneriaeth Lleisiau Mamolaeth - Bydwraig profedigaeth 	<p>2024</p> <ul style="list-style-type: none"> - Ebrill 2024 - Mawrth 2024 - Mawrth 2024
---	--	---	--	---

		gan nad oes ardal brofedigaeth benodedig.	- Rheolwr is-adrannol a Phennaeth Bydwreigiaeth	- Ionawr 2024
<p>7. Roedd tair ystafell eni yn rhan o Uned Geni'r Bae. Roedd yr ystafelloedd yn fach ac nid oedd llawer o le i fenywod allu symud o gwmpas.</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o Uned Geni'r Bae er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'r gofod sydd ar gael er mwyn i fenywod allu symud o gwmpas yn ystod y cyfnod esgor.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Adolygu cynllun presennol yr ystafelloedd yn Uned Geni'r Bae - Sefydlu grŵp prosiect i adolygu cynllun cyffredinol yr uned famolaeth ar safle Singleton (gan gynnwys addasrwydd yr ail Theatr Famolaeth - gweler Argymhelliad 23) er mwyn gwella'r amgylchedd gofal a'r cyfleusterau 	<ul style="list-style-type: none"> - Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth a Metron - Bydwraig Ymgynghorol, Pennaeth Bydwreigiaeth, Arweinydd Clinigol Obstetreg a Gynaecoleg a'r Rheolwr Is-adrannol 	<ul style="list-style-type: none"> - Rhagfyr 2023 - I ddechrau ym mis Medi 2024
<p>8. Un dadebrwr oedd ar gael ar gyfer y tair ystafell ac nid oedd yr uned yn rhan o'r brif ardal esgor.</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd gynnal asesiad risg o'r cyfarpar sydd ar gael yn Uned Geni'r Bae er mwyn sicrhau bod digon o gyfarpar brys (gan gynnwys teclynnau codi a chyfarpar dadebru) ar gael i fenywod a babanod mewn argyfwng.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Meincnodi yn erbyn unedau eraill ac adolygu'r safonau - Bydd y gwasanaeth Mamolaeth yn cynnal asesiad risg o'r ffaith mai dim ond un dadebrwr sydd ar gael yn Uned Geni'r Bae ac yn monitro er mwyn nodi unrhyw ddigwyddiad lle roedd 	<ul style="list-style-type: none"> - Bydwraig Ymgynghorol - Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth a Bydwraig Arweiniol Uned Geni'r Bae 	<ul style="list-style-type: none"> - Gorffennaf 2024 - Rhagfyr 2023

		<p>angen dadebru mwy nag un baban ar yr un pryd, gan uwchgyfeirio'r digwyddiad ac ailasesu'r risg. Yn ogystal â'r uchod, mae cyfarpar dadebru babanod safonol ar gael i bob ystafell eni arferol - ac wrth gael genedigaeth gartref ac yn y Ganolfan Geni Annibynnol - bydd hyn yn parhau a chaiff y sefyllfa ei monitro'n rheolaidd.</p>		
<p>Dewis cleifion</p> <p>9. Wrth edrych ar gofnodion cleifion, gwelsom nad oedd trafodaethau am feddyginiaethau lleddfu poen yn ystod y cyfnod esgor a thrafodaethau am ddewisiadau bwydo yn cael eu dogfennu'n effeithiol.</p> <p>Nodwyd gennym nad oedd y cynlluniau geni a awgrymir yn cael eu</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cynlluniau geni / dewisiadau menywod ar gyfer y cyfnod esgor a geni eu cofnodi fel mater o drefn yn nodiadau'r cleifion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Caiff tystiolaeth bod Cynlluniau Geni yn cael eu trafod â'r menywod ac yn cael eu dogfennu yn eu cofnodion mamolaeth ei monitro drwy archwiliadau misol o'r nodiadau. Dylai'r trafodaethau hyn gynnwys opsiynau geni, meddyginiaethau lleddfu poen a dewisiadau bwydo. - Caiff adborth am 	<ul style="list-style-type: none"> - Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth/Bydwraig Bwydo Babanod Arweiniol - Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Arweinydd 	<ul style="list-style-type: none"> - I ddechrau ym mis Ionawr 2024 - Rhagfyr

<p>cwblhau fel mater o drefn yn y cofnodion o'r apwyntiadau cychwynnol. Dylai'r rhain gyfeirio at ddewisiadau ar sail gwybodaeth a wnaed gan y cleifion mewn perthynas â'r cyfnod esgor a geni.</p>		<p>ddiffygion wrth ddogfennu cynlluniau geni ei rannu â'r bydwragedd cymunedol a'r tîm obstetrig ehangach.</p>	<p>Obstetrig/Metron Mamolaeth</p>	<p>2023</p>
<p>Gofal amserol 10. Dywedodd rhai o'r menywod ar y ward ôl-enedigol wrthym nad oedd meddyginiaethau lleddfu poen bob amser yn cael eu rhoi mewn modd amserol.</p> <p>11. Gwelsom fod llawer o fenywod yn aros er mwyn dechrau'r broses ar gyfer ysgogi'r cyfnod esgor oherwydd prinder staff.</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff meddyginiaethau lleddfu poen priodol eu rhoi mewn modd amserol.</p> <p>Dylai'r bwrdd iechyd adolygu llif cleifion a phrofiad cleifion a'u gwella, yn enwedig i'r menywod hynny y mae angen ysgogi'r cyfnod esgor ar eu cyfer. Rhaid</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Rhoi trefniadau hunanweinyddu meddyginiaethau ar waith yn llawn ym mhob rhan o'r gwasanaeth. - Bydd y Fydwraig Llywodraethu Arweiniol yn rhoi cyfarwyddyd i staff y dylid rhoi gwybod am bob achos o fethu â rhoi meddyginiaethau lleddfu poen neu o oedi wrth roi meddyginiaethau lleddfu poen drwy Datix a'i reoli'n unol â gweithdrefnau Gweithio i Wella. - Mae'r gwasanaeth yn 	<ul style="list-style-type: none"> - Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth, Metron gyda chymorth yr Arweinydd Fferyllol ar gyfer Mamolaeth - Bydwraig Llywodraethu Arweiniol - Bydwraig Ymgynghorol a'r Tîm Rheoli Mamolaeth ehangach 	<ul style="list-style-type: none"> - Chwefror 2024 - Tachwedd 2023 - Ebrill 2024

<p>Roedd y menywod hyn yn anfodlon ynghylch yr oedi.</p>	<p>i'r bwrdd iechyd liniaru unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â phrinder capasiti er mwyn sicrhau y caiff gofal cleifion diogel ac effeithiol ei gynnal.</p>	<p>anelu at ailagor Canolfan Geni Castell-nedd Port Talbot a fydd yn gwella'r llif cleifion yn Singleton.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cynnal prosiect llif uned a nodi cyfleoedd i wella'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo cleifion mewn modd diogel ac amserol allan i'r gymuned. 	<ul style="list-style-type: none"> - Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth a'r Arweinydd Gwella Ansawdd 	<ul style="list-style-type: none"> - Ebrill 2024
<p>Cyfathrebu ac iaith Gwrando 12. Soniodd dros 1/3 o'r menywod a atebodd ein holiadur am gyfathrebu gwael gan nodi nad oeddent yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt.</p>	<p>Mae angen i'r bwrdd iechyd ystyried y sylwadau llai ffafriol gan gleifion mewn perthynas â chyfathrebu, gan wrando ar y sylwadau hynny ac ystyried sut y gellir gwella'r gwasanaeth</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Bydd y gwasanaeth yn rhannu'r adborth hwn â'r staff yn ystod y cyfarfodydd cyfathrebu wythnosol - ac wedyn yn rhannu'r cyflwyniad (er mwyn sicrhau bod aelodau o staff nad ydynt yn bresennol yn y cyfarfodydd yn cael yr un wybodaeth allweddol). - Cynnwys yr adborth hwn ac adborth dilynol fel rhan o sesiynau hyfforddi a sefydlu staff yn y dyfodol a fydd yn cynnwys stori claf. 	<ul style="list-style-type: none"> - Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Arweinydd Obstetrig - Arweinydd Datblygu Ymarfer/Arweinydd Hyfforddiant Meddygol - Pennaeth Bydwreigiaeth 	<ul style="list-style-type: none"> - Rhagfyr 2023 - Mawrth 2024 - Ionawr

<p>Y Gymraeg 13. Enghreifftiau cyfyngedig o wybodaeth a oedd ar gael yn Gymraeg ar y ward ar ffurf poster neu ddeunydd wedi'i argraffu.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd wella'r cynnig rhagweithiol ar gyfer gofal Cymraeg i ddefnyddwyr gwasanaethau mamolaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Monitro adborth misol yn Fforwm Ansawdd a Diogelwch y Gwasanaeth Mamolaeth - Adolygu'r poster/taflenni a'r wybodaeth arall a ddarperir i fenywod a threfnu i unrhyw ddeunydd nad yw ar gael yn Gymraeg ar hyn o bryd gael ei gyfieithu. - Anfon e-bost at staff mamolaeth i'w hysbysu bod y Bwrdd Iechyd yn cynnig hyfforddiant Cymraeg. - Monitro nifer yr unigolion sy'n ymgymryd â hyfforddiant gorfodol Cymraeg fel rhan o'r ymrwymiad i wella sy'n gysylltiedig â Safonau'r Gymraeg. 	<ul style="list-style-type: none"> - Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth - Pennaeth Bydwreigiaeth - Rheolwyr y Gwasanaeth Mamolaeth 	<p>2024</p> <ul style="list-style-type: none"> - Chwefror 2024 - Rhagfyr 2023 - Mawrth 2024
<p>leithoedd eraill 14. Gwnaethom edrych ar gofnodion cleifion ac nid oedd unrhyw un yn nodi</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff anghenion cyfathrebu cleifion o gefndiroedd ieithyddol di-Gymraeg / Saesneg eu</p>	<ul style="list-style-type: none"> - Caiff nodyn atgoffa ei anfon at bob aelod o'r staff am bwysigrwydd gofyn i fenywod nodi eu 	<ul style="list-style-type: none"> - Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth 	<ul style="list-style-type: none"> - Rhagfyr 2023

